# ECO'R WYDDFA

RHIF 344 MAI 2007 PRIS 40c


**YN Y RHIFYN HWN:**


- **Llyfrau Newydd at y gwanwyn**
- **Pictiwrs Llanberis**
- **Atgofion Mair Roberts**



# Cwmni Rygarug yn Perfformio 'Gwyrdd' yn Theatr Gwynedd, Bangor



**Yn Theatr Gwynedd, Bangor, ar nos Fercher, 4 Ebrill a nos Iau, 5 Ebrill, cafodd pumed sioe lwyfan Rygarug ei pherfformio. Hon oedd eu sioe fwyaf uchelgesiol eto. Rhwng y ddwy noson daeth tua 400 o bobl i fwynhau perfformiad ardderchog – rhai wedi mwynhau cymaint y noson gyntaf mi ddaethon nhw'n ôl yr ail noson!**

Roedd y cast yn cynnwys bron i 70 o bobl ifanc o Gaernarfon, Bethel, Llanrug, Deiniolen, Cwm y Glo a Bontnewydd – rhai yn ymddangos ar y llwyfan ac eraill yn gweithio'n ddygn tu ôl i'r llenni.

Roedd 'Gwyrdd' yn sioe wreiddiol, wedi ei sgriptio gan athrawes yn Ysgol Syr Hugh Owen, Gaynor Elis-Williams, sydd hefyd yn un o diwtoriaid rheolaidd Rygarug, ac fe gyfansoddwyd y caneuon gan




Aled Evans, cerddor dawnus o Landegfan.

Mae'r stori yn taro tant cyfoes iawn ac yn delio ag un o bynciau mawr y dydd, sef gwarchod yr amgylchedd. Ond er bod y pwnc yn un difrifol roedd digon o hwyl a hiwmor i'w gael hefyd yn y sioe uchelgeisiol yma wrth i'r pedwar prif gymeriad ddod i adnabod eu hunain a'r byd o'u cwpas yn well.

Roedd y stori yn dilyn hynt a helynt Tomos Ifan (Chris Roberts) a Tamsin Siân (Ilid Angharad Jones) yn teithio ar draws



cyfandiroedd, yn darganfod pa effaith mae'r cynhesu yn yr amgylchfyd yn ei gael ar y byd.

Yn y cyfamser doedd gan Vince Prydderch (Iestyn Owen) a'i wraig, Valerie (Heledd Anna Roberts), ddim clem o gwbl sut yr oedd eu ffordd o fyw nhw yn cyfrannu tuag at y broblem. Ac yn sicr, doedd neb yn mynd i ddweud wrthyn nhw am newid y drefn!

Yn ogystal roedd y llwyfan yn ferw o liw a sŵn wrth i ni gael hanes mwncïod o'r jyngl, pengwiniaid o'r Antarctic a llamhidyddion o foroedd y de, yn ogystal â'r llewpardes unig o'r paith yn yr Affrig.

Cyfarwyddwr y sioe oedd Carys Huw, sydd wedi gweithio ym maes theatr pobl ifanc ers dros bymtheng mlynedd. 'Gwyrdd' oedd ei phrosiect cyntaf efo Rygarug.

Cyfarwyddwr Cerdd y sioe oedd Siân Wheway – un o sylfaenwyr Rygarug – sydd wedi

*(Parhad ar dudalen 15)*

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 344**
**MAI 2007**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.*



**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Tîm Golygyddol**
**Erthyglau a newyddion at ohebwyr pentref neu i**
Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA
**Ymholiadau Golygyddol**
Llinos Jones
01248 374 962
llinoshaf@hotmail.com
07733211332
**Straeon ac erthyglau ar e-bost**
storiau@ecorwyddfa.co.uk

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Llanberis (870740)
eifion@eifionroberts9.wanadoo.co.uk

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD PLYGU**
Shioned Griffith (650570)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


**Y RHIFYN NESAF**
**Deunydd i law'r golygyddion perthnasol**
**NOS LUN, 21 MAI**
**Os gwelwch yn dda Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg**
**NOS IAU, 31 Mai**

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570**

| Rhifyn | Dyddiad Copi | Dyddiad Plygu | Ble | Cysylltu â | Rhif Ffôn |
|---|---|---|---|---|---|
| Mehefin | 21 Mai | 31 Mai | Brynrefail | Gwyn H. Jones | 870848 |

## RHODDION

**£20.50:** Mr P. W. Williams, Corby.
**£20:** Mr a Mrs Myrddyn Pritchard, Llanberis; Elin Mai Jones, Llanberis; Mrs S.E. Thomas, Min y Rhos, Llanrug.
**£10.50:** Mr R. W. Roberts, Blaenau Ffestiniog; Mrs J. Williams, Morfa Bychan; Jenny Davies, Llangeitho; Mrs G. McCarthy, Childwall; Mrs O. Ebrell, Coventry; Mrs G. Beswick, New Brighton; Mrs A. Sidebotham, Whaley Bridge; Emrys Owen, Solihull.
**£10:** Ernest Owen, 8 Rhes Efrog, Llanberis; Mrs Nancy Jones, 79 Maes Padarn, Llanberis; Mrs Lily Owen, 4 Cefn Elan, Llanrug; Mrs Megan Jones, Greuor Villa, Brynrefail; Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog, Brynrefail; Eifion Griffiths, 12 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Glyn a Rhian Tomos.
**£6:** Dienw, Waunfawr.
**£5.50:** Mrs Bessie Williams, Llanfairpwll; Mrs Olive Thomas, Llanddaniel; Mrs Nancy Lovatt, Aberystwyth; Mr Alun Williams, Waunfawr.
**£5:** Ralph a Nancy Jones, Ffordd yr Orsaf, Llanberis; Jimmy ac Annwen Clarke, Caernarfon; Hywel a Margaret Williams, Nant Forgan, Cwm-y-glo; John Evans Hughes, Kirby Muxloe; Mr Owen Jones, Llangefni; Mr G. Huws Roberts, Bangor; Miss E. Williams, Llwyndyrys; Mrs Jean Hughes, 2 Bryn-Gro, Cwm y Glo.
**£2.50:** Mrs Alvona Jones, Prestatyn; Mr Meurig Owen, Lewisham; Ronnie 'Llanbabs' Williams, Aylestone.
**£0.50:** Mr Arwyn Thomas, Stourbridge; Mrs R. E. Griffiths, Newtown; Di-Enw.

## Mae camras yr heddlu 'ma 'mhobman

Derbyniwyd cerdd hynod ddiddorol gan 'ffugenw' yn ddiweddar, a sbardunodd drafodaeth yn ystod cyfarfod misol golygyddion *Eco'r Wyddfa*.

Y cwestiwn mawr oedd cynnwys y gerdd ai peidio.

Na, nid oherwydd unrhyw wall gramadegol neu gam gynghanedd, ond yn hytrach am y diffyg o gynnwys enw a manylion cyswllt y bardd hynod grefftus.

Ni fyddwn yn cynnwys unrhyw lythyr, erthygl na cherdd yn nhudalennau'r *Eco* heb dderbyn manylion cyswllt yr awdur, neu'r bardd.

Lwcus iawn, 'Gynghorydd'!

Y Golygyddion

Annwyl Olygydd,

**Rhagflas o Ŵyl Tŷ Newydd Mehefin 7–10, 2007**
**Penwythnos o eiriau yn dod â bwyd, diod, cerddoriaeth, awyr iach, celf a chwmnïaeth**

Yn gychwyn i Ŵyl Lenyddol Tŷ Newydd eleni, fe fydd dau o sgwenwyr am yr amgylchfyd a chefn gwlad mwyaf amlwg Prydain, Robert Macfarlane a Jim Perrin, yn darllen eu gwaith ac yn cael eu holi gan Mike Harding – cerddor, digrifwr a darlledwr ar Radio 2. Cynhelir y digwyddiad hwn yn Galeri, Caernarfon, nos Iau, 7 Mehefin. Ar nos Wener, yr 8fed, fe fydd sgwrs gan Robert Minhinnick a cherddoriaeth i ddilyn.

Bydd dydd Sadwrn, y 9fed, yn fwrlwm o weithgareddau, yn cynnwys gweithdy sgwennu cywydd yn Nhŷ Newydd dan ofal y Prifardd Tudur Dylan Jones. Darlleniad a chinio ym Mhorthmeirion yng nghwmni'r beirdd, Carol Ann Duffy a Gillian Clarke. Yn ôl i Westy'r Marine wedyn i ymuno â Jon Gower yn holi tair o ferched sydd wedi ennill prif wobrau yr Eisteddfod Genedlaethol – Eigra Lewis Roberts, Mererid Hopwood ac Angharad Price. Bydd cyfle i fwynhau trafodaeth ar waith yr awduron, Gwyneth Lewis a Gwen Pritchard Jones. Gyda'r nos, cewch bryd o fwyd ym mwyty No. 29 Fish Restaurant yng Nghricieth, a chyfle i gyfarfod â thri awdur o dramor sydd yn ymweld â'r ŵyl a chlywed Gwyneth Lewis a Robert Minhinnick yn darllen eu gwaith.

Yn binacl y noson cynhelir cystadleuaeth newydd sbon i ddarganfod Pencerdd Tŷ Newydd 2007 – 12 o feirdd, yn cynnwys Mererid Hopwood, Twm Morys, Tudur Dylan Jones, Iwan Llwyd, Ceri Wyn Jones a Myrddin ap Dafydd yn cystadlu am y teitl o Bencerdd Tŷ Newydd. Bydd rhaid iddynt berfformio un gerdd ddwys ac un gerdd ddigri, a byddant yn cael eu beirniadu gan T. James Jones, gyda mymryn o help gan y gynulleidfa. A bydd Mei Mac yn ceisio cadw trefn ar bawb!

Ymunwch â ni ddydd Sul, y 10fed, am ddiwrnod arall yn llawn o weithgareddau, gan gychwyn â theithiau cerdded yn Llanystumdwy – ar hyd y traeth yng nghwmni'r naturiaethwr Duncan Brown, neu ar hyd yr afon yng nghwmni Nigel Brown. Yn ôl yn Nhŷ Newydd wedyn fe fydd Janis Esbergs o Latfia a'r artist gweledol, Ffion Rhys, o Gymru yn cael eu holi gan Robert Minhinnick am brosiect Sealines (amlygwyd ar *Y Sioe Gelf* yn ddiweddar). Bydd gwaith celf Ffion, sy'n deillio o'i chydweithio â'r sgwenwyr, yn cael ei arddangos yn Nhŷ Newydd yn ystod yr ŵyl. Bydd cyfle hefyd i gael cinio a sgwrs yng nghwmni Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, yna mwynhau cerddoriaeth hyfryd Gwenan Gibbard a'i thelyn, ym mwyty Gwesty Mynydd Ednyfed, Cricieth.

Yn glo i'r ŵyl eleni bydd cyfle i bawb o bob oed fwynhau prynhawn braf yng ngardd hyfryd Tŷ Newydd – Hwyl yr Wyl. Beth am ddod i gael te ar y lawnt a gwrando ar stori neu ddwy gan y storïwr adnabyddus, Daniel Morden, mwynhau sioe bypedau Cwmni Cortyn, a chanu a dawnsio o amgylch yr ardd yng nghwmni Gwyneth Glyn a'r band cyffrous, Newfolks. Hwyl i'r teulu i gyd.

## Perfformiad Arall gan LL-55

Yn dilyn eu llwyddiant gyda'u perfformiad o 'Ffordd Tangnefedd' yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis, ac Eglwys Crist, Llandinorwig, yn ystod tymor y Nadolig y flwyddyn diwethaf, bu 'Criw Gareth' yn canu ym Mhlygain yr Esgobaeth yn Nhrawsfynydd ac mewn Cymanfa Ganu yng Nghapel Penygarnedd, Pentraeth. Maent hefyd wedi eu gwahodd i ganu yn y Gadeirlan ym Mangor ac hefyd mewn eglwys yn Llanedwyn, Dyffryn Ardudwy. Pwy fuasai'n meddwl, y Nadolig diwethaf, y buasai'r côr wedi mynd o nerth i nerth fel hyn ac wedi dal ati hefo'r perfformio?

Yn ystod yr wytnosau diwethaf mae'r côr hefyd wedi bod wrthi'n ddygn yn paratoi cyflwyniad arall, sef 'Llwybrau'r Groes'. Caiff y cyflwyniad hwn ei berfformio yn:

**Eglwys Sant Padarn, Llanberis**
**6 Mai am 7.00 o'r gloch**
**Tocynnau ar gael wrth y drws.**


BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

## PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

CARTREF NEWYDD. Pob dymuniad da i Jean a Gwynfor yn eu cartref newydd – Treflys. Rydym mor falch eich bod wedi aros yma ym Mhenisarwaun. Pob bendith i chwi yn eich cartref newydd.

Croesewir Sandra a David Greene a'r teulu sydd wedi ymgartrefu yn Tai Croesion. Deellir fod gan Sandra gysylltiad agos â'r pentref, y mae ei nain a'i thaid yn gorffwyso ym mynwent Santes Helen. Gobeithio y byddwch yn hapus yn eich cartref hyfryd.

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhelir yr Eisteddfod nos Wener, 11 Mai, yn y Neuadd Gymuned, i gychwyn am 6.00 o'r gloch. Y beirniaid prysur fydd Jenny Lynn: Cerdd, Adrodd a Llên; Anwen Hughes: Coginio a Mari Williams: Gwaith Llaw. Llywydd y noson fydd Gwenllian Parry. Gobeithir cael cefnogaeth gref eto eleni.

CÔR LL-55. Bydd Côr LL-55 yn cyflwyno 'Llwybrau'r Groes yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis ar 6 Mai am 7.00 yr hwyr. Tocynnau ar gael wrth y drws. Dewch yn llu i ddilyn Llwybrau'r Groes.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU. Cynhelir Gwasanaeth Cymdeithas y Beiblau Cylch Deiniolen, bnawn Sul olaf ym Mehefin. Bydd manylion llawn yn y rhifyn nesaf.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau i'r Parch Tegid Roberts ar achlysur pen-blwydd arbennig ar Sul y Pasg. Ymlaen i 'Oed yr Addewid' rŵan, Tegid!

YSGOL SUL BOSRA. Misoedd llawn bwrlwm fydd Mai a Mehefin i'r aelodau ifanc. Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr bnawn Sul, *20 Mai yng Nghapel Jeriwsalem, Llanberis am 2.00* o'r gloch. Gwneir casgliad tuag at y Gymanfa.

Bydd y bws yn cychwyn o Ddeiniolen am 1.25; Penisarwaun am 1.30; Cwm-y-glo am 1.35, ac yn Llanberis am 1.45. Y pris fydd £1 i oedolion. TAER erfynnir am eich cefnogaeth.

Bydd yr aelodau yn cymryd rhan yng Nghymanfa'r Methodistiaid *bnawn Sul, 17 Mehefin am 2.00* o'r gloch yng Nghapel Bosra.

Bnawn Sul olaf Mehefin, sef *24ain*, cynhelir Gwasanaeth Sul y Beiblau

DIOLCH. Dymuna Eifion Griffiths, 12 Llys y Gwynt, ddiolch i bawb am eu dymuniadau da ar achlysur ei ben-blwydd yn 80 oed.

GWELLHAD. Gyda'r tywydd braf yn codi calon, gobeithio fod pawb sy'n sâl yn teimlo'n well. Ein cofion annwyl at Delyth, Pengaer, sy'n disgwyl cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Ein cofion annwyl hefyd at Bedwyr, sydd wedi derbyn dwy driniaeth fawr yn Ysbyty Christie, Manceinion. Dal ati i gryfhau, Beds.

Ein cofion hefyd at William Oliver, Gors, sy'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

CLWB YR HENOED. Enillydd Pêl Bonws Loteri mis Mawrth oedd Miss Rhian Roberts, Ysgol Gymuned. Llongyfarchiadau.

PRIODAS RUDDEM. Llongyfarchiadau mawr i Pat ac Arnold Jones, 1 Tai Arthur, ar achlysur eu Priodas Ruddem yn ddiweddar. Dymuna'r ddau ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd ar achlysur hapus.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Ebrill a'r enillwyr oedd: Helen Owen, 7 Bryn Hyfryd; Nansi Williams, 15 Bryntirion; Megan Glyn, Gors, Brynrefail.

Bydd aelodau'r Pwyllgor yn dod yn wylaidd ar eich gofyn i brynu pêl ar gyfer 'Ras Beli' a gynhelir ar lethr iard yr ysgol, er diogelwch, yn hytrach nag i lawr Lôn Cae Hywel fel y crybwyllwyd yn y rhifyn diwethaf. Pris pêl fydd £1 yr un a chynhelir y weithgaredd hon ar nos Fercher, 16 Mai am 6.00 o'r gloch. Cychwynnir y ras gan Catrin Fychan, yr actores, un sydd hefyd yn athrawes lanw yn yr ysgol. Bydd Gareth Jones, y Pennaeth, yno i'w chynorthwyo hefyd.

Bydd byrddau gwerthu ar yr iard a chroeso i unrhyw un osod bwrdd gwerthu am £3 y bwrdd. Bydd paned, diod oren a chŵn poeth ar werth, ynghyd â raffl. Bydd gwobr deilwng i'r bêl lwcus. Diolchir i chwi am eich cefnogaeth arferol.

YSGOL GYMUNED.

*Croeso.* Croesawn Mrs Sian Williams i'n plith fel cymhorthydd dosbarth yn ystod absenoldeb mamolaeth Miss Rhian Roberts, gan ddymuno'r gorau iddi hi yn ystod y cyfnod yma.

*Ymweliad.* Dydd Gwener, 20 Ebrill, aeth plant dosbarthiadau 3, 4, 5 a 6 i ymweld â Plas Mawr a Tŷ Aberconwy yng Nghonwy, fel rhan o'u gwaith thema. Cafwyd diwrnod diddorol iawn.

*Gwersi Tenis.* Mae plant dosbarthiadau 3, 4, 5 a 6 wedi cychwyn ar eu gwersi tenis yn y Ganolfan Hamdden ar fore dydd Iau.

**Cefnogwch ein hysbysebwyr**

## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau calonnog iawn i Mrs Megan Jones, Greuor Villa, ar ddathlu pen-blwydd arbennig ar 29 Mawrth. Dymuna ddiolch yn fawr i'r plant, teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

CÔR LL-55. Bydd Côr LL-55 yn cyflwyno 'Llwybrau'r Groes yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis ar 6 Mai am 7.00 yr hwyr. Tocynnau ar gael wrth y drws. Dewch yn llu i ddilyn Llwybrau'r Groes.DIOLCH. Dymuna Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog, ddiolch o galon i Eleri a Simon, Bethan ac Amy a'r teulu oll, cymdogion a llu o ffrindiau am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed. Diolch yn fawr am ddiwrnod hapus a'r dymuniadau da.

YMDDEOLIAD. Dymunwn yn dda i Dafydd G. Ellis, Gweledfa, ar ei ymddeoliad yn ddiweddar. Yn frodor o Ddolwyddelan, gadawodd ei swydd mewn coedwigaeth bron i ddeugain mlynedd yn ôl i ddilyn hyfforddiant ar gyfer gyrfa fel swyddog prawf, a dyna'r pryd yr ymgartrefodd ef a'i deulu ym Mrynrefail. Bu'n gefnogol ar hyd y blynyddoedd i weithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol yn y pentref. Dymunwn iechyd a phob hapusrwydd iddo i'r dyfodol i fwynhau ei ddiddordebau amrywiol ac fel cadeirydd Menter Fachwen.

CROESFAN. Wythnos cyn y Pasg bu caffaeliad mawr i drigolion y naill ochr i'r petnref sydd yn gorfod croesi y ffordd osgoi A4244 yn feunyddiol. Mae'r groesfan newydd i'w chroesawu yn fawr er sicrhau mwy o ddiogelwch wrth geisio croesi y ffordd brysur hon.

COFION. Yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i Helen Maud Jones, 5 Trem Eilian. Dymuna Helen ddiolch am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd yn ystod yr wythnosau diwethaf.

LLONGYFARCHIADAU i Verna Jones, Meillionen, ar dderbyn Tysstysgrif am gyfnod maith o waith gwirfoddol yn y Gynghorfa Gyhoeddus i Ddinasyddion.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. Yn ystod oedfaon diweddar, cafwyd cyfle i longyfarch dwy o'r aelodau, Jennie A. Roberts, Ffrwd Madog, a Megan Jones, Greuor Villa, ar eu pen-blwydd arbennig yn 80 oed; dymuno'n dda i Gwyneth Evans a oedd yn ymweld â Ysbyty Manceinion ar 12 Ebrill, a chroesawu Robert John Williams yn ôl i'r oedfaon wedi cyfnod o anhwylder.

Nos Sul y Pasg, cafwyd oedfa arbennig dan arweiniad y Parchedig Dafydd Lloyd Hughes, pryd y gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

THEATR SEILO. Nos Sadwrn, 31 Mawrth, aeth grŵp o'r aelodau i berfformiad Cymdeithas y Gronyn Gwenith yn Theatr Seilo, Caernarfon.

Mwynhaodd pawb berfformiad ardderchog y cwmni, sef portread o T. Rowland Hughes, 'Y Dewraf o'n Hawduron', y sgript wedi ei chyfansoddi gan y Parch Harri Parri.


Y GYMDEITHAS. Nos Iau, 12 Ebrill, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Gymdeithas yn y Ganolfan. Llywyddwyd y noson gan John McBryde, Bryn Llwyd, a dywysodd yr aelodau yn ei fyfyrdod agoriadol at dymor y gwanwyn ac yn arbennig at arwyddocâd Amser mewn perthynas â bywyd. Yn dilyn, croesawodd y siaradwr gwâdd, sef y Parchedig Emlyn Richards, Cemais. Cafwyd darlith arbennig o gelfydd a diddorol ganddo dan y teitl 'Potsiars Môn'. Dros luniaeth a baratowyd gan Pat Jones a Carol Houston, cafwyd cyfle i werthfawrogi a thrafod yr hyn a glywyd a meynegi diolch gwresog am noson gofiadwy. Bydd y cyfarfod nesaf nos iau, 10 Mai, pryd y disgwylir Dafydd Whiteside Thomas i roi sgwrs dan y teitl 'Melinau'r Saint'.

OEDFAON MAI 2007.

6: Cymanfa Dosbarth Padarn
13: am 5.30: Mr John McBryde, Brynrefail
20: am 10.00: Parchg Reuben Roberts, Bontnewydd
27: Pentecost. am 10.00: Mr Maldwyn Thomas, Bangor.

Nos Iau, 5 Mai, am 6.30 bydd Henaduriaeth Arfon yn ymweld â'r Eglwys. Cynhelir y cyfarfod yn Y Caban. Disgwylir y Parchg. Gwyn Rhydderch i roi cyflwyniad am weithgareddau Coleg y Bala a gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.


**Gosodwr Teils**
Arbenigwr mewn waliau a lloriau
Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser
Ffoniwch Lloyd ar
**01286 830 805**


**BWS BACH AR LOG**
Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan
(01248) 361044
**D. P. OWENS** RHIWLAS





**Am Offer Tŷ a Gardd...**
**FORMAG**
41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

# Llyfrau Newydd

## Cyfrol newydd gan feistres ei chrefft

*F'Annwyl Leusa*
Mair Wynn Hughes
(Gwasg y Bwthyn, £6.00)

Hwyrach fod e-byst a negeseuon testun yn frith y dyddiau hyn, ond cyfrwng y llythyr sy'n mynd â bryd yr awdures yn ei nofel ddiweddaraf.

Mae'r gyfrol, sydd wedi ei hanelu at ddarllenwyr yn eu harddegau cynnar, yn adrodd hanes William, mab ifanc o gefn gwlad Cymru sy'n enlistio yn y Rhyfel Mawr. Cawn ei hanes trwy gyfrwng ei lythyrau myfyrgar, teimladwy a hynod bersonol at ei gariad Leusa, â'i eiriau'n pwysleisio'n boenus y newid byd i'r gwas fferm a ganfu ei hun yn ffosydd Ffrainc.

Uffern ar y ddaear yw bywyd i William a'i gyfeillion Reuben a Daniel wedi iddynt gyrraedd y rheng flaen. Rhaid ymdopi â phla chwain a llygod mawr, y 'tir neb' peryglus, y saethu a'r sielio di-baid, heb sôn am weld cyrff cyd-filwyr yn suddo i'r mwd gludiog.

Dyma gofiant teimladwy i gyfnod cythryblus yn ein hanes, sy'n cynnig cipolwg ar ochr ddynol rhyfel, a'r creithiau hynny sy'n parhau ymhell wedi i'r ymladd orffen ar faes y frwydr. Dyma hefyd gyfrol ddiweddaraf un o'n hawduron amlycaf a mwyaf toreithiog, ac un sydd wedi cyfareddu plant o bob oed ers bron i hanner canrif. Nid yn unig ei bod wedi ennill Gwobr Tir Na N'Og ar sawl achlysur, ond fe'i cyflwynwyd yn ddiweddar gyda Thlws Mary Vaughan Jones am ei chyfraniad i fyd llenyddiaeth i blant.

Meddai Maldwyn Thomas o Wasg y Bwthyn,

'Rydym yn falch iawn, iawn o gael y cyfle i gyhoeddi un arall o weithiau Mair Wynn Hughes, sydd heb os nac oni bai gyda'r awduron gorau yng Nghymru heddiw, ac sydd yn enillydd teilwng iawn o Wobr Goffa Mary Vaughan Jones.

'Maen nhw'n deud mai plant yw'r beirniaid caletaf, felly mae llwyddiant Mair yn dangos ei bod yn feistr corn ar ei chrefft, ac rwy'n argyhoeddedig y bydd *F'Annwyl Leusa* yn derbyn croeso'r un mor gynnes â'r un eraill o'i llyfrau.'

## Taith dysgwyr yn sbarduno'r awen

*Er Dy Fod*
Menna Elfyn
(Gwasg Gomer, £6.99)

*I know two Welsh words because when I go up and down in the lift in the BBC, I hear the words 'Drysau'n cau'...*

Newyddiadurwr *Radio Wales*

Mae'n rhyfedd sut mae iaith yn treiddio i ymwybyddiaeth y rhelyw ohonom – a hynny bron yn ddiarwybod i'r unigolyn. Yn ddysgwr neu'n siaradwr rhugl, mae'r ymennydd yn sbwng i sŵn – a swyn – geiriau.

Y chwilfrydedd dynol yma a brofodd yn sbardun i un o'n beirdd amlycaf wrth fynd ati i greu cyfrol newydd o farddoniaeth. O ganlyniad, mae'r antholeg *Er Dy Fod* gan Menna Elfyn yn gyfanwaith celfydd, ond syml, sy'n dathlu geiriau ac sy'n gyflwyniad perffaith i fyd yr awen i'r rhai hynny ohonom sy'n mynd i'r afael â'r iaith am y tro cyntaf.

Mae'r gyfrol arloesol hon yn torri cwys newydd ym myd llenyddiaeth Gymraeg. Profiadau dysgwyr ar y daith ieithyddol yw thema nifer o'r cerddi ynddi, gyda llawer ohonynt yn meddu ar gyflwyniad gan ddysgwr am eu profiad hwy o'r iaith Gymraeg. Dyna i chi'r frawddeg honno'n cyflwyno'r gerdd 'Wyth Deg': 'It takes one word eighty times on the tongue before it feels natural,' Tan hynny, fel y nodir gan Menna'n ei cherdd 'Llwybr Cyhoeddus':

'...gall sw^n a sain
Droi ein geiriau yn sigl-di-gwt.'

Meddai Menna,

'Dwi'm yn credu bod neb wedi ceisio sgrifennu barddoniaeth gyda dysgwyr mewn cof o'r blaen, a gobeithio y bydd y cerddi'n taro tant gyda dysgwyr achos eu bod nhw'n ymwneud â'r broses o ddysgu iaith arall.'

Beth felly a'i ysgogodd yn y lle cyntaf i fynd ati i greu cyfrol o'r fath?

'Fe sylweddoles i un diwrnod fod gen i fwy o ffrindiau sy'n ddysgwyr neu sydd ddim yn medru'r Gymraeg, nag sydd gen i o Gymry Cymraeg. Ac yn aml iawn, mae ffrindiau'n gyrru e-byst ata i'n gofyn beth yw ystyr gair penodol, neu sawl gair Cymraeg sydd am 'sgwarnog ac ati, ac o hynny dechreues i feddwl am y pontio yna, y ddeialog honno sy'n mynd ymlaen rhwng rhywun sy'n siarad un iaith a rhywun sy'n siarad iaith arall.'

Mae ei phrofiadau personol hi ei hun hefyd wedi profi'n werthfawr tu hwnt wrth fynd ati i sgrifennu'r cerddi hyn, fel yr eglura:

'Dwi'n cael gwahoddiad i fynd i ymweld â sawl gwlad, naill ai i ddysgu neu i ddarllen fy marddoniaeth, ac yn aml yn canfod fy hun mewn gwlad dramor ble nad ydw i'n deall yr iaith, felly rwyf yn gallu uniaethu â phrofiadau dysgwyr.'

Ond nid dysgwyr yn unig all fwynhau'r gyfrol fendigedig hon. Mae'r cerddi'n rhai byrion, syml o ran ieithwedd ond yn llawn delweddau, themâu a sylwadau am fywyd. Mae'r rhelyw yn rhai ysgafn, doniol, gydag ambell un dwys yn eu mysg, ond yn sicr bydd pob un ohonynt yn aros yn y cof am flynyddoedd lawer, ac yn cynnig cipolwg cwbl newydd ar iaith yn gyffredinol.

**Am yr awdur:**

Mae Menna hefyd yn ymgyrchwraig frwd tros hawliau merched a'r lleiafrifoedd ledled y byd, yn enwedig plant

Mae hi wedi cyhoeddi wyth casgliad o farddoniaeth yn ogystal â nofelau a dramâu. Ymysg ei chyfrolau, mae'r antholegau dwyieithog *Cell Angel a Cusan Dyn Dall/Blind Man's Kiss*; y gyfrol *Perffaith Nam.* Mae hi hefyd wedi sgwennu cyfrol blant, *Rana Rebel*; ac wedi golygu'r antholeg Eingl-Gymreig *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry*

Mae hi hefyd yn gyn Fardd Plant Cymru S4C, teitl a feddodd ym 2002-03

Fe'i ganwyd yn 1951. Yn fam i ddau o blant mae hi bellach yn byw yn Llandysul, yng ngorllewin Cymru

*Mae ein dyled yn fawr i Menna Elfyn gan ei bod hi wrthi'n adnewyddu ein Cymraeg trwy ei defnyddio fel offeryn sy'n llwyr atebol i gymhlethdodau bywyd yr unfed ganrif ar hugain. Mae wedi gosod ffrwydriad wrth droed clogwyn y Gymraeg gan roi defnydd i ni adeiladu hewlydd allan o'r cyfyng-gyngor moesol a gwleidyddol.*

Gwyneth Lewis

*Mae'n anodd meddwl am unrhyw fardd arall yn y Gymraeg sydd wedi gwneud cymaint â Menna Elfyn i gyfleu a dadansoddi profiadau a theimladau merched (a phobl o bob math) yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, yn ddigyfaddawd ac eto'n dyner.*

Ceridwen Lloyd Morgan

## Gogwydd Newydd ar Stori Gelert

*Gelert*
Gwen Pritchard Jones
(Gwasg y Bwthyn, £5.00)

Mae'r awdur wedi troi ei llaw unwaith eto at lyfrau plant gyda chyhoeddiad ei chyfrol fendigedig.

Ci chwareus, direidus yw Gelert, sy'n hanu o linach anrhydeddus o gw^n. Ei hen, hen, hen dad-cu – neu dad-gi! – oedd Gelert, ci ffyddlon y Tywysog Llywelyn Fawr.

Ynghyd â'i ffrindiau, mae'r Gelert presennol byth a beunydd mewn pob math o helbulon, ond buan y daw newid ar fyd wedi damwain. A gwaethygu wnaiff pethau wrth iddynt ymdrechu'n galed i achub eu 'dwy-goesiaid', Geraint ac Emyr.

Nid yw Gwen, a gipiodd Wobr Goffa Daniel Owen gyda'i nofel hanesyddol *Dygwyl Eneidiau* yn Eisteddfod Abertawe a'r Cylch y llynedd, yn ddieithr i fyd llenyddiaeth plant. Eisoes wedi cyhoeddi sawl llyfr llun a stori ar gyfer plant iau, dyma'i chyfrol gyntaf ar gyfer darllenwyr 8–11 oed. Ond fel cyn-athrawes yn ysgol gynradd yr Hendre, Caernarfon, mae hi'n sicr yn deall ei chynulleidfa'n dda iawn.

Meddai Gwen,

'Rown i wastad wedi mwynhau mynd i Feddgelert, ac wrth gwrs wedi adrodd y stori sawl gwaith i'r hen blant tra'n athrawes, ac roedd rhyw gnoi wedi bod i sgwennu fersiwn fwy cyfoes ohoni. Ac yna dyma daro ar y syniad o sgwennu am un o ddisgynyddion Gelert, ond ei wneud o'n dipyn o fwrddrwg!'

Ychwanega, 'Arferai fy nhad ddeud ei fod yn sicr mod i'n arfer bod yn gi mewn rhyw oes o'r blaen am mod i wastad yn 'bondio' gydag unrhyw gi'n syth! Rydym ni wastad wedi cael ci yn y ty^ - deud y gwir, y Del yn y stori ydy Del ein ci defaid ni!'

Gyda lluniau gwreiddiol bendigedig gan yr artist ifanc o Borthmadog, Petra Brown, dyma stori fu'n sicr o fod yn gystal clasur â'r un am y Gelert gwreiddiol.

**Y Lansiad**

Lansiwyd Gelert yn Ysgol yr Hendre'n ddiweddar (isod), wrth i Gwen Pritchard-Jones ddychwelyd yn ôl i'r ysgol gynradd lle bu'n athrawes yn yr 1980au.

Cafodd Dosbarth 5 Mrs Ann Jones fodd i fyw wrth glywed Gwen yn darllen o'r gyfrol, cyn bachu ar y cyfle i ofyn eu cwestiynau eu hunain wrth yr awdures arobryn.

Wedi'r sgwrs, cafwyd cyfle i fwynhau bisgedi arbennig siâp cw^n yr oedd Gwen wedi eu paratoi.

Os hoffech chithau fynd ati i greu'r bisgedi hyn, dyma'r rysait yn syml. Ond cofiwch ofyn caniatâd gan riant neu oedolyn arall cyn mynd ati i bobi!

*Cynhwysion:*

4 owns Blawd Plaen
2 owns Semolina
2 owns Siwgr Caster
4 owns o fenyn wedi ei feddalu *neu* 2 owns menyn + 2 owns margarin

*Dull:*

Cymysgwch y menyn a'r siwgr mewn powlen fawr
Hidlwch y blawd a'r semolina i mewn i'r gymysgedd a churo'r holl beth gyda'i gilydd tan fod gennych gymysgedd tebyg i bâst stiff
Tylinwch y gymysgedd
Taenwch y gymysgedd ar fordyn wedi ei daenu efo tipyn o flawd a'i rolio gyda phin rholio
Torrwch y pastri'n ddarnau mân naill ai gyda chyllell neu dorrwr arbennig
Gosodwch y siapiau ar dun wedi ei iro'n dda
Priciwch wyneb pob bisged yn ysgafn gyda fforc
Dodwch y siapiau yn y popty a'u coginio ar dymheredd o 150°C neu Marc Nwy 3 a'u coginio am 20–25 munud
I wneud bisgedi siocled, ychwanegwch lond llwy fwrdd o bowdwr coco gyda'r blawd plaen a'r semolina yng ngham 2

# Colofn y Plant

## Clwtyn Criw Triw


Annwyl Blant,

Ychydig o hwyl y tro hwn!



Un digri ydi Mot,
Corgi Now Ciaffi Pot,
Mae o'n cyfarth 'Miawow',
Ond callia wnei di, 'rhen beth,
Neu'n shŵr iti, ciath fyddi di,
Ac hec! O hec! nid blwming ci!

Edrychwch ar y lluniau. Pa un ydy'r un rhyfedd? Mae'r ateb cywir gyferbyn.



Mawr! Andros o fawr! Wir i chwi! Anferthol! Sawl gwaith allwch chwi gyfrif y rhif 7 yn y rhif hir hwn, sef

707078777793457127

Bob hwyl i chwi i gyd, oddi wrth

SMONACH MAWR

## Yr Atebion

**Yr un rhyfedd**
ydy'r ci a'r asgwrn yn ei geg!



Offerynnau cerddorol ydyw'r lleill i gyd! Beth am fynd ati i greu stori, neu beth am greu cerdd am offerynnau cerddorol, a danfon y storïau neu'r penillion atom ni yma, sef Y Golygydd, Eco'r Wyddfa, Penarth, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.

**Sawl Gwaith?**
Deg gwaith i gyd y mae'r rhif 7 yn ymddangos yn y rhif anferthol!


**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR
•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn
Ffôn: 650218

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: (01286) 650291
Ar Agor 9-7 pm, 9-5 pm Sadwrn
Ar Gau Sul a Mercher
Dewis eang o Welyau a *3P/Suites*.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?
GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

*Fframia* Gwasanaeth Fframio Lluniau
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd
Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:
WILLIAM SELWYN • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY
PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Caffi Caban
ar Agor
9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos
Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.
Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.
Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)
caban cyf

Am gymorth:
• i gychwyn prosiect
• i gael hyfforddiant
• i geisio am grant
• i redeg mudiad
• i wirfoddoli
MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups
cysylltwch â Mantell Gwynedd
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271


Problem gyda'ch cyfrifiadur?
Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â Gomer Roberts
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368
Cymorth a hyffordiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

# DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

CLWB ORWIG. Croesawyd aelodau'r Clwb uchod yng Nghanolfan Blue Peris ar 15 Mawrth. 'Atgofion' oedd thema'r cyfarfod a bu amryw o'r aelodau'n adrodd am y profiadau a oedd yn dal yn fyw yn eu cof.

Soniodd Betty Bower am y pleser a brofodd pan dderbyniodd gerdyn Nadolig y llynedd oddi wrth deulu o ffoaduriaid o Vietnam y bu'n eu helpu i ymgartrefu ym Mangor, 25 mlynedd yn ôl. Cofio am ddefod y Fari Lwyd a wnâi Margaret Faulkener pan yn ymweld â'i chartref yn ne Cymru, a nifer fawr o bobl yn galw yno dan ganu a chario ysgerbwd o ben ceffyl. Disgrifiodd Nellie Wyn yr arferiad a gofiai o addurno ffynhonnau ym mhentrefi Swydd Derby. Daeth Kathleen Davies â Llyfr Gweddi a gyflwynwyd iddi'n ferch ifanc pan arferai fynychu Capel Hebron ar lethrau'r Wyddfa, a Betty Lloyd Roberts yn dangos ei chasgliad o luniau diddorol. Hanesyn digrif am ei brofiad yn fuan wedi iddo ymuno â'r Heddlu a gafwyd gan John Cantrell, a dangosodd Selwyn Williams nifer o luniau a dynnodd o'r aelodau'n mwynhau eu cinio Nadolig yn y clwb.

Enillwyd y gwobrau raffl, a oedd yn rhodd gan Alice Griffith, Megan Morris a Betty Lloyd Roberts gan Morfudd Jones, Anne Lo, Rose Cantrell a Nellie Wyn Jones. Rhoddwyd y te gan Megan Morris ac Alice Griffith.

Cyfarfu'r aelodau eto, dan lywyddiaeth John Cantrell, ar 29 Mawrth. Croesawyd John a Dennis Glass yn ôl o'u gwyliau a llongyfarchwyd Rex Faulkener ar ei ben-blwydd. Soniodd amryw o'r aelodau am eu pleser o weld yr olygfa odidog o'r cennin Pedr o gwmpas y Gofeb i'r Chwarelwyr yn yr Allt Ddu.

Mwynhawyd cwis i adnabod 40 o ganeuon poblogaidd ac yna ymunodd pawb i'w cyd-ganu. Enillwyd y gwobrau raffl, a roddwyd gan Margaret Faulkener, Betty Bower a Joan Glass gan Rose Cantrell, Ray Bower, Betty Lloyd Roberts, Anne Williams a Betty Ann Jones. Diolchwyd i Martin a Glenys o'r Veg Van am eu cyfraniadau o ffrwythau a llysiau. Rhoddwyd y te gan Margaret Faulkener a Betty Bower.

DWY O'R UN ENW. Pnawn arbennig oedd hi dydd Gwener y Groglith pan gyfarfu Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir, Dinorwig, â'i wyres, Alis Glyn a anwyd ar y 13eg o Fawrth, am y tro cyntaf. Mae'r ddwy yn rhannu yr un enw a'r nain hapus mor falch bod Glyn Tomos, ei mab, a'i briod, Rhian, wedi penderfynu enwi eu merch fach ar ôl nain Dinoriwg. Tynnwyd nifer o luniau i ddathlu'r achlysur arbennig hwn a dyma un ohonynt. Dyma'r degfed tro i Mrs Thomas fod yn nain.

Hoffai Glyn a Rhian Tomos ddiolch i bawb o fro'r *Eco* am y llwyth cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da maent wedi eu derbyn ar ddod yn rhieni am y tro cyntaf.

CYRDDAU PREGETHU. Cynhelir Cyrddau Pregethu'r Sulgwyn yn Sardis (B) ddydd Sul, 27 Mai.

Y pregethwr gwadd fydd y Parchg. Tudur Rowlands, Rhewl, un o blant y Fachwen.

Croesewir chwi'n gynnes iawn i'r oedfaon, a fydd yn dechrau am 2.00 a 5.30 o'r gloch.

CÔR LL-55. Bydd Côr LL-55 yn cyflwyno 'Llwybrau'r Groes yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis ar 6 Mai am 7.00 yr hwyr. Tocynnau ar gael wrth y drws. Dewch yn llu i ddilyn Llwybrau'r Groes.




Sychlanhau • Altro
Ailwnïo
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU


Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277





Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

Y BWTHYN TÉ
pen y ceunant isaf
LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS


PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR WAELODION LLWYBR YR WYDDFA (O LLANBERIS) YN YSTOD Y 18ed. GANRIF CEWCH GROESO ARBENNIG YMA, YN OGYSTAL A GOLYGFEYDD GWYCH DROS LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydiau o gwbwl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL
Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606 www.ceunant.co.uk steven@ceunant.co.uk

• Priodasau • Dathliadau
• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
• Pwyllgorau • Bwydlen Bar
• Cinio Dydd Sul

QUALITY HOTEL

Quality Hotel
Llanberis
(Gwesty'r Fictoria gynt)
– rhan o CHOICE HOTELS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (01286) 870253

# Briwsion Byd Natur

**Dafydd Guto**



## Cegau Agored

Cefais alwad teliffon – ni fydda i'n cael rheini'n aml, a diolch byth am hynny clywaf rhywun yn gweiddi!

'Mae'n rhaid iti weld hyn, Guto! Tyrd draw! Cofia 'ngwas i ddyfod â'th gamera hefo chdi!' clywais rhwyun yn fy nghyfarwyddo. Yma, yng Nghymru roeddwn i, a dyna fynd ati i chwilio am y camera a'r geriach ffotograffu – rhag ofn mai'r dieithr, hyd yn oed yr anghyffredin, y byddwn i'n cael y fraint o'u cyfarfod y pnawn braf hwnnw! A oedd ffilm yn sbâr gennyf? Oedd! Doeth o beth bob amser ydyw cadw un wrth gefn! Felly, ar 12 Mai y llynedd, dyma deithio i dŷ cyfeillion selog, ac yno, eto dan gyfarwyddiadau, symudais yn dra gofalus ar hyd llwybr yr ardd, hefo E ysgwydd wrth ysgwyddM, hyd nes cyrraedd llwyn, ac M yn symud y brigau deiliog i un ochr.

'Mae'n rhaid bod yn eithaf sgut a phheidio tarfu'n ormodol ar drefn byd natur,' meddwn wrthynt.

'Iawn, sti,' sibrydodd E. 'Mae'r tad a'r fam ar hyd y fan ma'n hela.'

A beth lechai yng nghanol y llwyn ond nyth: un crwn fel hanner wy, wedi ei ffuufio'n gelfydd o dwt. Ie, nyth! Gwead perffaith o ddail, brigau, a mymryn o wreiddiau, ac wedi ei adeiladu hefo mwsogl a gwlân, a'r cyfan yn cadw'r cywion yn ddiddos a chynnes.

'Ers pryd y maent yma?' holais, ac eglurodd M na wyddai E mwy na hithau fod yno nyth o gwbwl hyd nes sylwi ar bâr o adar, 'run ffunud ag *adar to*, yn diflannu i ganol y llwyn isel o ran ei dyfiant, yna'n gadael ac yn dychwelyd hefo bwyd yn eu gylfinau. A dyna sefyll o'r neilltu ac encilio i gegin y tŷ a gwylio. I'r adarydd, hynny ynghyd â sylwi ar arferion, sydd o bwys, a gofalu na wêl yr aderyn, neu'r adar, mohonoch. Dyna a ddysgodd cyfaill da i mi, sef y diweddar Ted Breeze Jones. Ie, adarydd cwbwl di-ddim ydyw hwnnw sy'n tynnu sylw ato'i hunan, gan ymyrryd ar fyd adar.

Pa adar a'u cywion am y tro cyntaf y tymor nythu hwnnw oedd yng ngardd E ac M, meddech? Do, mi ymddangos-odd y Feistres a'r Meistar. Pâr diwyd ryfeddol o adar *Llwyd y Berth* oeddynt, ac yn ymdebygu o ran maint a lliw i adar y to, ond eu bod llawer mwy llwyd o ran lliwiau o gwmpas eu pennau, a rhannau uchaf eu cyrff yn strimynnog-frown. Y mae eu pigau hefyd yn feiniach na phigau adar y to, a lliwiau orenaidd a geir ar eu coesau.

Yn ystod y gaeaf byddant yn hercio mynd ar hyd y llawr ar y lleindir ger fy nghartref. A'u bwyd? Yr ymborth a gludent i'r cywion y mis Mai dan sylw oedd mân bryfed, ond cefais ar ddeall hefyd eu bod yn chwannog am ambell *bryfyn cop* (*corryn*), ac ni wnant ychwaith droi ymaith eu pigau o weld hadau gwair! Yn ystod y tymor bythu ânt ati hyd at deirgwaith i fagu teuluoedd, a bydd y fenyw'n dodwy oddeutu 4–5 o wyau lliw glas golau. Y fam fydd yn eistedd ar y nyth, ac ymhen pythefnos, tair wythnos fan bellaf, bydd y cywion yn gadael y nyth ac yn dysgu hedfan, a'u rheini yn eu hyfforddi i ddal eu bwyd eu hunain.

Byddant yn hedfan yn yr awyr a rhwng brigau'r coed, yn gwbwl rydd, ar eu hynt. Ie! Ie! Hynny ydyw oni bai ei bod *hi* o gwmpas – na, nid y giath, ond hi, y *Gog lwydlas*, sy'n bethynca nythod adar eraill, ac un o'r adar sy'n ysglyfaeth parod iddi ydyw *Llwyd y Berth*. Dyna paham y ceir enw arall ar yr aderyn hwn, sef Gwas y Gog.

Y tro nesaf: Gwiwer lliw'r eira yn nalgylch *Eco'r Wyddfa*. Tan hynny daliwch ati i wylio'n ofalus a pharchu bywyd gwyllt, ac nid ei beryglu a'i ddifa.

# Gwynedd Gynaladwy


Y dyddiau yma mae pob papur newydd neu fwletin newyddion ar y teledu yn ymwneud ag effeithiau newid hinsawdd (*climate change*). Mae'n dorcalonnus gweld y trychinebau naturiol sy'n digwydd yn y byd heddiw, e.e. y tswnami yn Asia yn 2004, corwynt Katrina yn New Orleans yn 2005 a'r rhew yn toddi yn yr Arctig gan ddifa cynefin yr arth wen.

Mae gan Sustainable Gwynedd Gynaladwy dîm o siaradwyr profiadol sy'n fodlon dod, yn rhad ac am ddim, i'ch clwb neu eich cymdeithas chi. Gallent roi sgwrs neu sesiwn sy'n canolbwyntio ar gamau ymarferol a hawdd y gall pawb ei wneud i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd a byw bywyd dyddiol mwy cynaladwy. Bydd modd trafod nifer o bynciau, gan gynnwys arben ynni (ac arian), ailgylchu, lleihau gwastraff, compostio yn y cartref, teithio, buddion siopa'n lleol a chefnogi busnesau lleol.

Cwmni bychan yw Sustainable Gwynedd Cynaladwy Cyf. wedi ei leoli ym Mhorthmadog ac mae'n canolbwyntio ar Wynedd. Ein nod yw hyrwyddo egwyddorion cynaladwyedd yng Ngwynedd mewn gwahanol ffyrdd.

Mae Gwynedd Gynaladwy yn cael ei ariannu gan Gyngor Gwynedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Mantell Gwynedd. Am fwy o fanylion am y sgyrsiau neu'r cwmni, cysylltwch â Cynthia Hughes ar (01766) 543 033 neu e-bost: cynthia@gwyneddgynaladwy.org.uk


I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING MACHINE CENTRE**
**21 Stryd Fawr**
**PORTHAETHWY**
Ffôn: **(01248) 714043**
neu **Caernarfon**
Ffôn: **(01286) 674520**
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc



**ARVONIA**

- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.




Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonia.co.uk
Gwefan: www.arvonia.co.uk



Harddwch eich cartref gyda
**FFENESTRI CELTIC** WINDOWS
**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS**
**CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
*Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris*
**HEN YSGOL GLANMOELYN**
**LLANRUG LL55 2RG**
**(01286) 678618** (dydd)
**(01248) 670081** (nos)

# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

**NOSON GOFFI A STONDINAU**

yn y Ganolfan, Waunfawr
Nos Wener, 11 Mai
am 6.30 o'r gloch

**Yr elw i gyd i Ysgol newydd Pendalar**

*Trefnwyd gan:*
Sefydliad y Merched
a Merched y Wawr

**DEWCH YN LLU I GEFNOGI**

GŴYL FAI Antur Waunfawr, p'nawn Sadwrn Mai 5 rhwng 1 a 4 o'r gloch y p'nawn. Hwyl i'r holl deulu gyda adloniant a stondinau.

Agoriad Swyddogol ein Sgubor Grefftau newydd. Mynediad £1 i oedolion, 50c i blant. Croeso cynnes i bawb.

Y CLWB 300. Enillwyr y Clwb 300 am fis Mawrth oedd: £40: Mrs Olwen Morgan, Cartrefle; £25: Mrs Beryl Jones, Dôl y Coed; £10: Mrs Betty Thomas, Ty'n Llain.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Y wraig wâdd yn y Sefydliad ar 5 Ebrill oedd Mrs Karen Jones, Tan-y-Waun. Croesawodd y Llywydd, Catherine Jones, hi i'r cyfarfod gan ddweud mor falch oedd ei bod wedi cytuno i ddod atom ar fyr rybudd. Eglurodd Karen sut y daeth i gymryd diddordeb mewn arlunio ac yna wedyn troi at y grefft unigryw o wneud lluniau gyda darnau o wydr. Gwaith cywrain iawn. Roedd pawb wedi mwynhau ei sgwrs yn fawr iawn.

Pat Parry fydd yn arwain y cyfarfod nesaf ar 3 Mai i drafod y penderfyniadau sydd i'w trafod yn y cyfarfod Blynyddol ym mis Mehefin.

MERCHED Y WAWR. Cafwyd dau gyfarfod o'r gangen yn ystod mis Mawrth. Ar noson Gŵyl Ddewi mwynhawyd noson gymdeithasol a danteithion traddodiadol, wedi eu paratoi gan y swyddogion, ym Mhen y Graig, cartref ein llywydd, Sylvia Prys Jones.

Ar 22 Mawrth, Mrs Bethan Wyn Jones, y naturiaethwraig o Fôn, ddaeth atom i roi sgwrs, gyda chymorth fideo ar yr anifail prin hwnnw, y wiwer goch. Mae ymdrechion glew ac eitha llwyddiannus yn cael eu gwneud mewn rhai o goedwigoedd Ynys Môn i geisio ei hachub. Roedd y sgwrs yn hynod fanwl a diddorol a dysgwyd nifer o ffeithiau dadlennol, megis yr un nad yw'r greadures fach sionc yn treulio misoedd y gaeaf yn cysgu, ond yn hytrach yn paru ac yn magu ei theulu!

Ar 26 Ebrill, byddwn yn ymweld â'r Ganolfan Ailgylchu yng Nghaernarfon yng nghwmni Mr Dafydd Arfon Jones, ac ar 24 Mai byddwn yn cynnal ein Cyfarfod Blynyddol yn y Ganolfan. Dewch yn llu gyda'ch syniadau ar gyfer y tymor nesaf.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Derec a Liz Williams, Bryn Beddau, ar enedigaeth eu trydydd ŵyr bach. Ganwyd Dyfrig Siôn Pari i'w mab, Derfel, a'i briod, Ceri, yn Ysbyty High Wycombe.

DIOLCH. Dymuna Erin Haf, 6 Ael-y-bryn, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn ar ôl iddi fod yn yr ysbyty. Hefyd diolch i'r nyrs, Anwen Williams, am yr holl help.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Gareth Alun, Tyddyn Prion, ar gyrraedd ei ddeunaw oed yn ddiweddar. Dymunwn bob llwyddiant i ti i'r dyfodol.

YMDDEOLIAD. Dymunwn bob hapusrwydd i John a Nora Ferrarese, Gilfach, ar eu hymddeoliad o'u gofal am Garej Pant Waun. Dymunwn yn dda hefyd i'r rheolwr newydd a'r staff sydd wedi ymgymryd â'r swydd o ofalu am y garej.

ADREF O'R YSBYTY. Mae Mrs B. Westphall, Stad Tref Eilian, a Marian Wyn Jones ar hyn o bryd yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion cynhesaf at y ddwy ohonynt.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref o'r ysbyty i Pryderi Tomos, Stad Tref Eilian, ac hefyd i Mr Wyn Griffith, Ger-y-nant, wedi iddo dderbyn llawdriniaeth.

CYMDYMDEIMLWN yn ddwys iawn â Mrs Shirley Parry, Stad Pant y Waun, yn ei phrofedigaeth o golli chwaer yn frawychus o sydyn.

DYMUNO'N DDA. Mae hi'n dymor yr haf yn yr ysgolion a'r colegau ac yn amser prysur a phwysig iawn i'n plant a'n pobl ifanc. Dymunwn yn dda i bob un fydd yn sefyll arholiadau eleni.

LLWYDDIANT EISTEDDFODOL. Llongyfarchiadau i Myra Turner, Collfryn, ar ei llwyddiant mewn cystadlaethau llefaru mewn nifer o eisteddfodau yn ddiweddar.

LLWYDDIANT CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Faye Latham, Haul a Gwynt, am lwyddo gyda theilyngdod yn arholiad Gradd 2 Clarinet ac i Beca Tomos, Angorfa, ar lwyddo gydag anrhydedd yn arholiad Gradd 1 Clarinet. Da iawn chi, genod. Daliwch ati.

LLONGYFARCHIADAU i Rhys Siôn, Pant Teg, ar ei ddyweddïad â Louise Garland o Wlad yr Haf.

NOSON GOFFI. Cynhelir Noson Goffi a stondinau yn y Ganolfan, Waunfawr am 6.30 o'r gloch, nos Wener, 11 Mai. Bydd yr elw i gyd yn mynd tuag at Ysgol newydd Pendalar.

Dewch i gefnogi yr achos da yma. Merched y Wawr a Sefydliad y Merched sydd yn trefnu'r noson.

**Cyngor Cymuned Waunfawr**

Dymuna'r Cyngor benodi Clerc rhan amser, cyfrifoldebau'n cynnwys rheolaeth o'r cyllido a'r fynwent. Telir cyflog ar y Raddfa Genedlaethol.

Ymholiadau llafar:
Clive James (01286) 677438

Ceisiadau ysgrifenedig erbyn 16.00 dydd Iau, 10 Mai at:
Y Cadeirydd,
Cyngor Cymuned Waunfawr
Hafan, Caeathro,
Caernarfon LL55 2SS

Cynhelir cyfweliadau nos Lun, 14 Mai

# O SIAMBAR SELWYN

## Colli Cyfaill

Dod adre mewn tacsi o Faes Awyr Manceinion yr oeddwn i. Yr un tacsi ag arfer a'r un dreifar – Brian. Wedi cael y manylion diweddara am y byd pêl-droed lleol ganddo, fy nghwestiwn nesa oedd,

'Os 'na rywun dwi'n nabod wedi marw tra roeddwn i ffwrdd?'

'Oeddach chi'n nabod Huw Jones Llanwnda?' *'Oeddach chi!'* Doedd Huw 'rioed wedi marw! A dyna sut y clywais i am farw un o'm ffrindiau penna.

Mae ganddon ni i gyd ffrindiau, a diolch amdanyn nhw, ond mae gwir ffrindiau yn brin, ac roedd Huw yn un o'r rheiny. Un y gallwn i lwyr ymddiried ynddo; un y gallwn i rannu cyfrinachau ag o, ac un a oedd bob amser yn fwy na pharod ei gymwynas. Roedd hi'n fraint cael bod yn ffrind i Huw. Oeddan, roeddan ni'n dipyn o fêts.

Chwarae ffwtbol gyda'n gilydd yn nhîm y Cownti Sgŵl. Cymdogion i'n gilydd fel prifathrawon. Fo yn Bodfeurig a minnau ar y pryd yn bwrw fy mhrentisiaeth yn Rhiwlas. Bûm ar ei ofyn sawl tro am gyngor ynglŷn â phroblemau rhedeg ysgol, ac yn hynod ddiolchgar i dderbyn ei gyngor doeth ar fwy nac un achlysur.

Roedden ni'n dau yn ymddeol yr un adeg. Buom yn gweithio gyda'n gilydd am gyfnod yn yr Adran Addysg Grefyddol yn hen goleg y Santes Fair ym Mangor. Roedd 'na fwrdd snwcer yno a dyna oedd ein pleser ar awr ginio.

Mynd i Anfield yn weddol rheolaidd ar un cyfnod: ein dau yn cefnogi'r cochion. Ac yn ddiweddar iawn fe gytunom â'n gilydd y byddai'n rhaid i ni fynd o leia unwaith eto i deml Anfield, cyn iddyn nhw symud i'r stadiwm newydd. Mor hawdd ydi trefnu i'r dyfodol yntê.

Mynd i nofio gyda'n gilydd i Blas Menai. Wel, plymio i'r dŵr o leia, a chael seibiant a sgwrs. Mwy o sgwrsio nag o nofio. Un da am sgwrs oedd Huw.

Welais i neb oedd yn nabod cymaint o bobl ag o. Sawl tro y gofynnodd i mi,

'Wyt ti'n cofio hwn a hwn?' Finna ddim syniad. 'Wel, wyt siŵr, roedd o'n 'rysgol hefo ni.' Roedd o ar gymaint o bwyllgorau ac yn aelod o sawl cymdeithas leol a byddai'n pregethu bob Sul bron, mewn mwy nag un capel.

Mi fydda wrth ei fodd yn dod gyda mi pan fyddwn yn rhoi sgwrs i ambell gymdeithas neu gangen o Ferched y Wawr, yn enwedig yn ardal Llŷn. Yn wir, roeddwn i'n fwy na balch fwy nag unwaith ei fod o gyda mi neu fyddwn i byth wedi dod o hyd i ambell le. Oedd, roedd o'n 'co-peilot' eitha dibynnol ar deithiau i wlad Llŷn. Wrth gwrs, roedd o wedi clywed fy nhipyn neges i sawl tro ac mi fydda fo'n cau'i lygaid tra byddwn i'n traethu. Mi fyddwn inna'n edliw hyn iddo gan awgrymu yn gellweirus nad oeddwn i mor ddiflas â'i anfon i gysgu. Ei ateb fyddai,

'Dwi'n medru gwrando'n well wrth gau fy llygaid.' Roedd hi'n anodd cerdded stryd yn Llŷn yn ei gwmni. Bob yn ail cam roedd o wedi aros i sgwrsio hefo rhywun a bu'n rhaid i mi ffarwelio ag o sawl tro gan ddeud,

'Mi wela i di bnawn Mawrth, Huw – nofio, Parc Menai.'

Yr un peth ar gae Steddfod – roedd o'n nabod cymaint! Roedd Huw yn ddyn Steddfod ac yn ddyn Sioe. Mwy o ddyn sioe o bosib – dyna oedd ei brifwyl o – cael mynd gyda'i garafán i dreulio wythnos yn Llanelwedd. Sawl tro bu'n ddadl rhyngom – p'run ydi gwir brifwyl Cymru. Fi yn bleidiol dros brifwyl mis Awst, yn naturiol, a Huw yr un mor gadarn dros brifwyl yr anifeiliaid. Ac, wrth gwrs, fan honno roedd ei ddiddordeb penna fo, hefo'r ceffylau a'r cobiau. Do, cawsom sawl dadl ond wnaethon ni 'rioed ffraeo, fedrech chi ddim ffraeo efo Huw. Ond mi roedd o'n Steddfodwr ffyddlon hefyd a bu'n cynnig ei wasanaeth am flynyddoedd fel stiward.

Pan oeddwn i'n amheus ynglŷn â'r cyfrifoldeb o sefyll etholiad ar gyfer bod yn Archdderwydd, roedd Huw yn bendant y dylwn wneud.

'Gwna,' medda fo, 'dwi'n edrach ymlaen at gael galw *chdi* ar yr Archdderwydd.' A bob tro wrth i mi arwain yr orymdaith o'r llwyfan, mi fydda fo wrth y drws yn rhoi arwydd cadarnhaol a winc i mi fod popeth wedi mynd yn ok.

Buom yn trafod llawer am broblemau a chyfrifoldeb Cynghorau Cymuned. Roedd o yn aelod ffyddlon ers blynyddoedd ar Gyngor Llanwnda a minnau yn Glerc i Gyngor Llanddeiniolen.

Pan glywais am ei farw sydyn roeddwn i'n cymryd y byddai'r angladd wedi bod, ond roeddwn adre o fewn diwrnod ac roedd hyn yn rhyddhad mawr i mi. Cafodd angladd nas anghofir yn fuan. Angladd cymwynaswr. Angladd yr oedd cymdeithas gyfan yn teimlo fod dyletswydd arni hithau i dalu'r gymwynas olaf iddo fo.

Fedra i ddim llai na meddwl y byddai Huw wedi bod wrth ei fodd yn ffermio. Roedd y tir yn agos iawn at ei galon.

Y sgwrs ola a gawsom ni oedd trafod y pêl-droediwr, Dixie Dean. Roedd o wedi clywed sgwrs a wnes i ar y radio yn dathlu canmlwyddiant ei eni, ac fel y bu i Dixie farw ar Barc Goodison yn ystod gêm darbi yn erbyn Lerpwl. Daethom i'r canlyniad pe câi o ddewis lle i farw, mai yno ar Barc Goodison fyddai ei ddewis.

Fedra inna ddim llai na meddwl, petai Huw wedi cael y dewis, y byddai yntau'n berffaith fodlon o gael ffarwelio â'r hen fyd 'ma ar ddrn o dir ei filltir sgwâr, y tir a roddodd gymaint o bleser iddo fo gyda'i geffylau a'i gobiau.

Hwyl, 'rhen gyfaill. Diolch am gael dy gwmni a'th gyfeillgarwch. Fe wela i di.

## CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

PRIODAS AUR. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Margaret a Hywel Williams, Nant Forgan, ar achlysur dathlu eu Priodas Aur.

LLONGYFARCHIADAU i Mr Les Orritt, Moranedd, ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 70 oed.

DIOLCH. Dymuna Hywel a Margaret, Nant Forgan, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau ac anrhegion a gawsant ar achlysur dathlu eu Priodas Aur.

YN Y FYDDIN. Ar 22 Mai, bydd Craig, mab Beryl ac Islwyn Jones, 7 Dôl Afon, yn mynd ar ddyletswydd gyda'r Fyddin i Irac am chwe mis. Byddwn yn meddwl yn ddyddiol amdano a'r teulu.



CYMANFA'R ANNIBYNWYR. Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr, Cylch Deiniolen a Chwm-y-glo, bnawn Sul, *20 Mai yng Nghapel Jeriwsalem, Llanberis.* Gwneir casgliad tuag at Gronfa'r Gymanfa.

Bydd y bws yn gadael Deiniolen am 1.25; Penisarwaun am 1.30; Cwm-y-glo am 1.35 ac yn cyrraedd Llanberis am 1.45.

Pris fydd £1 i oedolion. TAER erfynnir am eich cefnogaeth.

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r gangen yn yr Ysgol Gymuned nos Lun, 2 Ebrill. Croesawodd Mrs Dorothy Jones, Arweinydd y Gangen bawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Marjorie Roberts a Mrs Menna Roberts. Trafodwyd rhai materion a godwyd ym mhwyllgor y cyngor ym Mangor ar 28 Tachwedd. Bydd y pwyllgor nesaf yn cael ei gynnal ym Mhorthmadog ar 24 Ebrill.

Croesawodd Dorothy ein gwraig wâdd, Mrs Margaret Walker o Borthmadog. Cafwyd sgwrs ddiddorol ganddi am ei bywyd fel gwraig ficer tra roedd yn byw yn Lloegr flynyddoedd yn ôl.

Y gwesteion oedd Miss Meira Williams a Mrs Marjorie Roberts. Rhoddwyd y raffl ganddynt hefyd ac fe'i henillwyd gan Mrs Walker. Diolchwyd i'r gwesteion a Mrs Walker gan Dorothy. Terfynwyd trwy adrodd y Gras.

DIOLCH. Dymuna Les ddiolch i Judith, Nigel a Cynthia am y noson fendigedig a gafodd yng ngwesty Porthmeirion i ddathlu ei ben-blwydd yn 70. Hefyd diolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd.

**Cefnogwch ein hysbysebwyr**

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO MOCHYN**
AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718788
wefan: www.ydyncig.co.uk

FINE ART TRADE GUILD
**ORIEL CWM**
Cwm y Glo
Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

**CDH**
Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol
27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727
a hefyd ein swyddfa newydd
8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 355055
Dewch atom am gyngor ynghylch
yswiriant a materion ariannol
Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

## LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

CÔR LL-55. Bydd Côr LL-55 yn cyflwyno 'Llwybrau'r Groes yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis ar 6 Mai am 7.00 yr hwyr. Tocynnau ar gael wrth y drws. Dewch yn llu i ddilyn Llwybrau'r Groes.

DYMUNA Ernest Owen, 8 Rhes Efrog, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau, cymdogion a llawer eraill am y cardiau, rhoddion a dymuniadau da am wellhad buan a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar, ac am yr holl ymweliadau ar ôl dod adref. Diolch yn fawr i bawb.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL LLANBERIS.
Terfynwyd tymor y Gymdeithas ar nos Fawrth, 3 Ebrill, gyda chinio blasus yn y Bistro, Llanberis. Y gŵr gwadd oedd y Prifardd Twm Morris a chawsom noson ddiddorol a hwyliog yn ei gwmni yn sôn am ei waith a'i swyddogaeth fel bardd, yn ei ffordd hamddenol ei hun. Llywyddwyd y noson gan y Parchedig John Pritchard a rhoddwyd y diolchiadau gan Mr Gareth Jones.

Cawsom wledd, fel arfer, yn y Bistro gan Danny a Nerys. Bydd colled enfawr i ni yn y Gymdeithas (a phawb arall hefyd) ar ei holau. Rydym wedi bod yno yn ciniawa ers sawl bwlyddyn bellach.

Diolch i'r ddau am eu cydweithrediad parod bob amser. Ar ran y Gymdeithas Undebol dymunaf ymddeoliad hapus iawn i chwi. Rydych yn ei haeddu.

DIOLCH. Dymuna Ralph a Nancy Jones ddiolch yn ddiffuant am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt oddi wrth deulu a ffrindiau i ddymuno'n dda iddynt yn eu cartref newydd yn Ffordd yr Orsaf. Yn anffortunus, ychydig ddyddiau ar ôl symud, cafodd Nancy ddamwain yn y tŷ. Ei dymuniad yw diolch yn gynnes iawn i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau, galwadau ffôn, blodau ac amryw anrhegion eraill. Diolch i bawb am eu consýrn.

DYMUNA Nancy Jones, 79 Maes Padarn, a Diana Pritchard, 11 Stryd Ceunant, ddiolch i'w cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth o golli eu chwaer, Nellie Thomas, yn Coventry.

DYMUNA Nancy Jones, 79 Maes Padarn, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddiweddar.

ARWEINYDD NEWYDD. Yn ystod cyfarfod ymarfer Côr Dyffryn Peris nos Lun, 16 Ebrill, estynnwyd croeso i'r Arweinydd newydd, sef Dafydd Roberts, i'n plith.

Mae Dafydd yn byw yn Llithfaen ac yn adeiladwr/ffermwr yn ôl ei alwedigaeth. Ar hyn o bryd mae o hefyd yn ddirprwy-arweinydd Côr Cymysg Godre'r Eifl.

Bu, ac y mae Dafydd, yn cymryd rhan mewn cyngherddau ledled Prydain fel unawdydd ac mewn deuawd gyda'i chwaer, Ann Williams, ac adnabyddir hwy fel Dafydd ac Ann. Cafodd, pan yn ifanc, hyfforddiant lleisiol gyda Joan Carlisle (Llangollen) ac, yn ddiweddarach, gyda Gwyneth Sol Owen (Pwllheli).

CYMANFA'R ANNIBYNWYR. Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr, Cylch Deiniolen a Chwm-y-glo, bnawn Sul, *20 Mai yng Nghapel Jeriwsalem, Llanberis.* Gwneir casgliad tuag at Gronfa'r Gymanfa.

Bydd y bws yn gadael Deiniolen am 1.25; Penisarwaun am 1.30; Cwm-y-glo am 1.35 ac yn cyrraedd Llanberis am 1.45.

Pris fydd £1 i oedolion. TAER erfynnir am eich cefnogaeth.

CAPEL COCH: Bu plant yr Ysgol Sul yn brysur yn llunio cardiau Pasg ar gyfer y gystadleuaeth a drefnwyd ar gyfer plant yr Ofalaeth. Diolch yn fawr iawn i bawb o Ysgol Sul Capel Coch ac Ysgol Sul Unedig Deiniolen a wnaeth gerdyn. Diolch hefyd i Mrs Nia Thomas, Rhes y Cae, am ei gwaith fel beirniad ac am ddewis enillwyr y gwahanol oedrannau, a'r prif enillydd. Dyma'r enillwyr:

*Meithrin:* 1. Nia Thomas, Deiniolen; 2. Alis Jones, Deiniolen; 3. Lowri Collins, Capel Coch.
*Derbyn:* 1. Eban Jones, Capel Coch; 2. Beca Jones, Deiniolen; 3. Glain Hughes, Deiniolen.
*Bl. 1–2:* 1. Aled Pritchard, Capel Coch; 2. Dafydd Orrit, Capel Coch; 3. Môli Jones ac Aron Jones, Capel Coch.
*Bl. 3–4:* 1. Emma Tong, Deiniolen; 2. Steffan Jones, Deiniolen; 3. Lois Williams, Capel Coch.
*Bl. 5–6:* 1. Adam Jones, Capel Coch; 2. a 3. Kate Pritchard, Capel Coch.
*Uwchradd:* 1. Tudur Williams, Deiniolen; 2. Miriam Pritchard, Capel Coch.
*Prif enillydd:* Robin Pritchard, Capel Coch.

Llongyfarchiadau mawr i'r enillwyr a diolch yn fawr iawn i bawb am yr holl gardiau. Diolch hefyd i'r rhieni am annog y plant i gymryd rhan.

Cyhoeddwyd yr enillwyr yn ystod y Noson Goffi a gynhaliwyd er budd Cronfa adnoddau Capel Coch nos Fercher, Mawrth 28. Cafwyd cefnogaeth dda i'r noson honno a diolchwn i bawb a ddaeth yno i gefnogi'r ymdrech.

Roedd gennym hefyd gystadleuaeth i lunio erthygl y Pasg ar gyfer *Gronyn,* taflen newyddion wythnosol yr Ofalaeth. Beiriniad y gystadleuaeth honno oedd Mr John H. Hughes, Tan-y-clogwyn, a dyfarnodd ef y wobr gyntaf i Mr Bert Parry, Llanberis a'r ail wobr i Mrs Margaret Cynfi Griffith, Deiniolen. Diolch i'r awdurdon a'r beirniad am eu gwaith. Cyhoeddwyd y ddwy erthygl fuddugol yn rhifyn Sul y Pasg *Gronyn*

**CERIS JONES**
Teglan, Stâd Talybont
LLANRUG
677362
neu symudol
07979
620996

• Trwsio ceir a faniau
• Gwaith MOT
• Mecanic profiadol iawn
• Prisiau cystadleuol

# LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

CÔR LL-55. Bydd Côr LL-55 yn cyflwyno 'Llwybrau'r Groes yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis ar 6 Mai am 7.00 yr hwyr. Tocynnau ar gael wrth y drws. Dewch yn llu i ddilyn Llwybrau'r Groes.YR YSGOL GYNRADD. Ar ddiwedd tymor y Pasg roeddem yn ffarwelio ag Anti Delyth, sydd wedi derbyn swydd yn Ysgol Waunfawr. Bu Anti Delyth yn goruchwylio amser cinio yma ac mae hi wedi cwblhau cwrs Cam wrth Gam. Diolch yn fawr i chi am eich gwaith caled a dymunwn yn dda i chi yn eich swydd newydd.

Diolch yn fawr i Mr Phil Owen, tad Ela, sydd yn blismon, am ddod i'r dosbarth derbyn i siarad gyda'r plant.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Anti Glenys, sydd wedi colli ei mam yn ystod y gwyliau. Rydym yn meddwl amdanoch.

YMDDEOL O DDOSBARTHU. Dymunwn ddiolch yn enfawr i Mrs Enid Whiteside Thomas, Dolwar, am ddosbarthu'r *Eco* yn ei hardal ers y cychwyn cyntaf. Mae yn awr am ymddeol o'r gwaith gwirfoddol yma ac fe fydd Mr Hefin Jones, Dolwen, yn cario'r gwaith ymlaen. Diolch yn fawr i chi eich dau am y gwaith gwerthfawr yma.

DIOLCH. Dymuna Anwen a Jimmy Clarke (20 Tal y Bont) ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd ar achlysur eu priodas ar 30 Mawrth. Maent wedi ymgartrefu yn Maes Cadnant, Caernarfon.

Dymunwn yn dda i'r cwpwl ar gychwyn eu bywyd priodasol.

PEN-BLWYDD ARBENNIG IAWN. Dathlodd Mrs Sarah E. Thomas (Sally), Min y Rhos, Ffordd yr Orsaf, ei phen-blwydd yn 102 oed ar 9 Mawrth. Llongyfarchiadau calonnog a dymuniadau gorau iddi, y trigolyn hynaf, wedi ei geni a'i magu yn Llanrug.

Dymuna hithau ddiolch o galon i'w theulu a'i chyfeillion am eu caredigrwydd tuag ati. Cafwyd diwrnod i'w gofio eto ym Min y Rhos ar ddiwrnod ei phen-blwydd.



*Mrs Sally Thomas yn dathlu ei phen-blwydd yn 102 gyda'i merch, Rachel.*

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr y Clwb 100 am fis Ebrill oedd: £20: A.V. Owen, 4 Rhos Rug; £7: Mrs C. Griffiths, Tan y Fron; £5: Mrs G. Thomas, Wenallt.

BABI NEWYDD. Llongyfarchiadau mawr i Heulwen a Steve, 35 Glanffynnon, ar enedigaeth Alaw Swyn, chwaer fach i Heledd.

DYMUNA Lily Owen, 4 Cefn Elan, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion, arian a'r blodau ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed.

DYMUNA Leri, Sioned, Ffion, Bethan a Cara (Bodffordd), ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn ystod eu profedigaeth lem ac annisgwyl. Diolch o galon.

CAPEL Y RHOS. Ar Fawrth 31ain, priodwyd Gwenlli Mair Pugh a Shaun Holdsworth. Gweinyddwyd gan y cyn weinidog y Parch. D. Lloyd Hughes. Mae'r cwpl ifanc wedi ymgartrefu ym Mhenisa'rwaun ac mae'r ddau yn athrawon yn Ysgol Friars Bangor. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

Fore Sul, Ebrill 1af, oedd gwasanaeth cyntaf y Parch. Marcus Wyn Robinson fel ein gweinidog newydd. Yn ystod y gwasanaeth bedyddiwyd dwy chwaer o Rhes Rhythallt – Ffion Haf ac Alaw Angharad. Croesawyd y teulu a llu o ffrindiau i'r gwasanaeth.

Ar nos Fercher, 18fed o Ebrill, cynhaliwyd gwasanaeth sefydlu y Parch. Marcus Robinson yn weinidog swyddogol ar Gapel y Rhos Llanrug ac ar Gapel Cysegr Bethel. Braf iawn oedd gweld y capel yn gyfforddus lawn gyda chynulledifa deilwng o'r ddau gapel. Croesawyd nifer o ffrindiau a chyn aelodau'r gweinidog o eglwysi eraill. Dywedodd un ohonynt ar y noson,

'Ein colled ni sydd yn ennill i chwi.' Cafwyd gwasanaeth bendithiol iawn a dilynwyd yr oedfa gyda lluniaeth arbennig i ddathlu'r achlysur. Paratowyd y bwyd gan aelodau o Cysegr ac o Gapel y Rhos. Diolch o galon i bawb gyfrannodd mewn unrhyw ffordd tuag at yr achlysur arbennig hwn.

Mawr obeithir y bydd Y Parch. Marcus Robinson yn setlo i lawr yn hapus iawn yn ein plith. Gobeithio y gallwn ninnau, fel aelodau, fod yn gefn iddo yn ei waith. Dymunwn pob bendith iddo ar ddechrau cyfnod newydd arall yn ei weinidogaeth.

TREFN GWASANAETHAU MIS MAI

Cynhelir y gwasanaethau am 10 o'r gloch y bore, yn ogystal â'r Ysgol Sul

6: Y Gweinidog;
13: Parch. Ddr Geraint Tudur;
20: Y Parch. Nan Wyn P. Davies;
27: (Penetecost): Y Parch. Trefor Jones.



# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CLWB BRO BETHEL. Elfyn Owen oedd y siaradwr gwadd yng nghyfarfod mis Ebrill a chafwyd ganddo sgwrs am, ei waith fel Rheolwr Gofal a Thrwsio Gwynedd Cyf. Nod yr Asiantaeth yw galluogi pobl hŷn a phobl anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain o fewn y gymuned leol drwy wella cyflwr eu cartrefi i lefel sy'n gyfforddus, diogel a hwylus. Roedd cyfle ar y diwedd i ofyn cwestiynau a chafwyd trafodaeth ar nifer o bynciau. Braf oedd cael gwybod fod Gofal a Thrwsio Gwynedd Cyf. erbyn hyn wedi dathlu deng mlynedd o wasanaeth yr Asiantaeth ar draws Gwynedd.

Bydd y trip pentymor yn mynd i Wrecsam ar ddydd Mawrth, 5 Mehefin. A wnaiff pawb sy'n dymuno mynd ar y trip roi gwybod i Maud Williams neu Nerys Owen erbyn y cyfarfod nesaf os gwelwch yn dda.

Ieuan Williams fydd y gŵr gwadd y tro nesaf, a hynny ar 8 Mai.

MERCHED Y WAWR. Cawsom gwmni Mr Hywel Jones o Gig Rosé Cymru yn ein cyfarfod mis Ebrill. Cafodd groeso cynnes gan ein llywydd, Anne Elis. Difyr fu'r sgwrs yn dilyn cychwyn cwmni cydweithredol gan ffurfio cwmni Bwydlyn ym Mhen Llŷn. Trodd y syniad yn realiti ac erbyn hyn cyflogir nifer fawr o drigolion yr ardal yn y siop gig ym Mhwllheli a'r siop lysiau a ffrwythau ym Mhorthmadog. Cawsom flasu cig Brasada ac, wrth gwrs, y cig eidion o Ben Llŷn. Diolchwyd i Mr Jones yn hwyliog iawn gan un o genod Pen Llŷn, sef Rhian Hughes.

Dymunwyd yn dda i'r canlynol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerfyrddin: Siôn Elwyn, fydd yn rhan o ddeuawd offerynol gyda Lois Eifion o Benisarwaun; parti cerdd dant (adran) dan 12 oed dan ofal Manon Dauncey Griffiths; band adran Bethel, a hefyd nifer o blant Bethel sy'n aelodau o fand Ysgol Brynrefail. Pob lwc i chwi i gyd.

Elisabeth Evans, Margaret Williams ac Eirlys Sharpe oedd yng ngofal y baned ac enillydd y raffl oedd Alys Jones.

Swyddogion y gangen dros 2007/2008 fydd: Llywydd: Margaret Druce; Is-lywydd: Mair Price; Ysgrifennydd: Joyce Roberts; Is-ysgrifennydd: Glenys Griffiths; Trysorydd: Edith Jones; Is-drysorydd: Beti Owen. Pwyllgor: Rhian Hughes, Brenda Jones, Mair Read, Eirlys Williams, Delyth Williams ac Elisabeth Evans.

Siân Davies fydd ein gwraig wâdd y mis nesaf ar nos Fercher, 9 Mai, yn rhoi arddangosfa o Gelf a Chrefft. Fe fydd y tymor yn dod i ben gydag ymweliad â Llaeth y Llan, Llanefydd, ar nos Fercher, 13 Mehefin.

LLONGYFARCHIADAU i Gwion Wyn ar ennill ar y gystadleuaeth chwarae piano yn Eisteddfod y Bontnewydd nos Iau, 5 Ebrill.

DIOLCH. Hoffai Nan Owen, Berwyn, ddiolch o galon am y llu cardiau, blodau ac ymweliadau a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

Diolch arbennig i'r cymdogion, Mrs Judith Jones a Mrs Meriwen Jones, am eu caredigrwydd ac i'r meddygon a staff wardiau Tryfan a Gogarth, Ysbyty Gwynedd.

CÔR LL-55. Bydd Côr LL-55 yn cyflwyno 'Llwybrau'r Groes yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis ar 6 Mai am 7.00 yr hwyr. Tocynnau ar gael wrth y drws. Dewch yn llu i ddilyn Llwybrau'r Groes.


**Perchnogion Newydd!**
yn parhau'r traddodiad gwych

**WAVELL'S**
**Bryn ac Angela Williams**

**London House, LLANRUG**
Ffôn:
**(01286) 673574**

**PEN CIGYDDION Y FRO**


Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNNWCH Y GORAU**
**DEWCH ATOM NI!**

Blodau
Racca
(Alwyn and Sarah Jones)
Ffôn **870605**

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 118 247
- Planhigion Gardd a Basgedi Crog

**RHODD O'R GALON YW BLODAU**



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

**Uned 1, Fferm Bryn Afon**
**LLANRUG**
**Ffôn: (01286) 674183**
**(0589) 899901**

# UN FUNUD FACH

## CANU MAWL

Er gwell neu er gwaeth, rwy'n un o'r bobl hynny sy'n hoffi'r pethau cyfarwydd. Dyna pam fod y cyfnod rhwng dechrau mis Mai a chanol mis Gorffennaf wedi tueddu i'm bwrw oddi ar fy echel ers i mi ddod i'm heglwysi presennol dros ddeunaw mlynedd yn ôl. Mae'r patrwm sefydlog sydd gennym i oedfaon y Sul weddill y flwyddyn yn cael ei dorri gan gyfarfodydd gwahanol y cyfnod hwn, yn cynnwys mwy nag un cymanfa ganu. Mae'r oedfaon arbennig hyn yn gyfle wrth gwrs i fwynhau cwmni pobl o eglwysi eraill, ac mae tipyn o newid ynddo'i hun yn beth braf.

Ond o dipyn i beth, gwelwyd llai o'r cyfarfodydd ychwanegol hyn, ac o ganlyniad ers blwyddyn neu ddwy bu llai o alw am ganslo neu ail drefnu'r oedfaon arferol. Penllanw'r newid syfrdanol a welwyd dros y chwarter canrif diwethaf yw peth felly, wrth gwrs. Rwy'n ddigon hen, er enghraifft, i gofio Cymanfa Ganu Annibynwyr Llŷn ac Eifionydd a'i thair oedfa ar ddydd Llun; a chapel Tabernacl, Porthmadog, bob yn ail flwyddyn â chapel Penmount, Pwllheli, yn rhwydd lawn. Mae'r ffaith fod angen benthyca'r ddau gapel Presbyteraidd, am nad oedd gan yr Annibynwyr gapeli digon mawr, yn dyst i faint y cynulleidfaoedd! Y fath newid a gafwyd!

Mae'n anodd gwybod beth i'w feddwl o ddiflaniad y gymanfa. Mae'r drafferth a gawn i ddal i gynnal y fath weithgarwch yn arwydd o'n llesgedd fel eglwysi, ac mae hynny'n ofid mawr. Ac eto, mae'n bwysig hefyd nad ydym yn teimlo bod raid i ni gynnal pethau er mwyn eu cynnal. Does dim rhinwedd Cristnogol mewn cynnal pethau yn unig am ein bod wedi arfer eu cynnal. Gallwn ddigalonni'n llwyr wrth fynnu gwneud hynny. Os gallwn gadw'n cymanfaoedd yn gyfryngau buddiol i'n helpu i addoli'r Arglwydd, wrth gwrs bod gwerth i'w diogelu. Ond mae hefyd angen chwilio am gyfryngau newydd a meddwl am gyfarfodydd newydd a fydd yn galluogi'n heglwysi i ddwyn eu tystiolaeth ac i ddatgan eu mawl i'w Harglwydd. Y mae yna rai ymdrechion felly i roi cyfle i eglwysi ddod at ei gilydd yn achlysurol i gydaddoli. Yn naturiol, mae rhai yn llwyddo'n well na'i gilydd, ond gweddïwn am fendith Duw ar yr holl ymdrechion hyn.

Y peth mawr yw bod Duw yn cael ei foli. Dyna ddiben pob cymanfa; a dyna, gobeithio, ddiben yr holl weithgareddau hen a newydd, arferol a neilltuol, sydd gennym yn ein heglwysi o hyd. Canu mawl i'r Goruchaf a thystio am ei Fab yw ein gwaith a'n braint. Fel unigolion, ac fel eglwysi, mynnwn wneud hynny. Yn nerth ein Duw gallwn fwynhau canu mawl iddo ac addoli'r Duw sydd wedi'n caru a'n gwneud yn blant iddo'i hun. A diolch bod gennym hen gyfryngau yn ogystal â rhai newydd i wneud hynny yng nghwmni pobl yr Arglwydd.

JOHN PRITCHARD

# CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

GWASANAETHAU'R CAPEL. Bydd y Gwasanaethau canlynol yn cael eu cynnal yn ystod mis Mai:
6: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Cledwyn Griffith
13: 11.00 Ysgol Sul
20: 10.00: Mr J. H. Hughes
11.00 Ysgol Sul
27: Dim ysgol Sul.

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Cyngor nos Fercher, 16 Mai, am 7.15 yr hwyr yn Y Ganolfan, Waunfawr. Yn ystod y cyfarfod gall etholwyr ofyn cwestiynau i'r cynghorwyr.

HELFA WYAU PASG. Cafwyd bore o hwyl gan blant iau'r pentref ar Sul y Pasg. Diolch i haelioni hapchwaraewyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro, prynwyd a chuddiwyd wyau Pasg yng ngerddi enwog Bryn Eden. Ar ôl i bawb, rhai efo cymorth eraill, lwyddo i gasglu'r wy cywir roedd lluniaeth o fri, yn addas i bawb o bob oed, wedi ei ddarparu gan Eifion ac Edwina a'r teulu. Diolch yn fawr i bawb.

PEN-BLWYDD O BWYS. Llongyfarchiadau i Dafydd Roberts, Tai Brynteg, ar ddathlu pen-blwydd oed yr addewid.

TYNFA MISOL. Enillwr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Ebrill oedd: £40: O.H. Williams, Tai Glangwna; £25: Sharon Thomas, Bryn y Gof; £15: Bethan Iwan, Carrog; £5: Dewi Parry, Cefn Rhos.

TAFARN BRYNGWNA. Erbyn hyn mae Steffan ac Alison ap Geraint wedi symud i Langefni. Mae Rhian yn parhau i astudio yn y coleg ym Mangor ac yn warden hostel.

Preswylwyr newydd Tafarn Bryngwna yw Derek a Michele Roberts a'u mab, Dylan, a'r ferch, Louise. Maent yn bwriadu rhedeg tafarn leol, groesawgar gyda phrydau canol dydd a chyda'r nos. Beth am fwrw heibio.

CÔR LL-55. Bydd Côr LL-55 yn cyflwyno 'Llwybrau'r Groes' yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis ar 6 Mai am 7.00 yr hwyr. Tocynnau ar gael wrth y drws. Dewch yn llu i ddilyn Llwybrau'r Groes.

**Cyngor Cymuned Waunfawr**

Dymuna'r Cyngor benodi Clerc rhan amser, cyfrifoldebau'n cynnwys rheolaeth o'r cyllido a'r fynwent. Telir cyflog ar y Raddfa Genedlaethol.

Ymholiadau llafar: Clive James (01286) 677438

Ceisiadau ysgrifenedig erbyn 16.00 dydd Iau, 10 Mai at:

Y Cadeirydd,
Cyngor Cymuned Waunfawr
Hafan, Caeathro,
Caernarfon LL55 2SS
Cynhelir cyfweliadau nos Lun, 14 Mai

**Cofiwch anfon eich llythyrau i'r golygyddion drwy e-bostio: storiau@ecorwyddfa.co.uk**


Silver STAR
**GWYLIAU SEREN ARIAN**

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

**Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333**

**Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern**

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur
- Yswiriant Teithio
- Cynlluniau Angladd
- Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

AGE Concern

Age Concern Gwynedd a Môn
Tŷ Seiont, Ffordd Santes Helen,
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD
**01286 678310**

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ECO'R WYDDFA

Mae Age Concern Enterprises Ltd wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer yswiriant cyffredinol. Mae'n gweithredu o tua 300 o Age Concern lleol ledled y DU

Cofiwch ddefnyddio
**SWYDDFA POST BETHEL**
(01248) 670261

**ORIAU AGOR**
6 a.m.–7.30 p.m.
(Llun–Sadwrn)
6 a.m.–6 p.m. (Sul)

Cewch groeso cynnes gan
**CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

**A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant Tynnu Pres (Cashback)**

# Ysgol Brynrefail

## Rhedeg Traws Gwlad

Llongyfarchiadau gwresog i'r canlynol ar eu llwyddiant mewn cystadleuaeth Traws Gwlad yn Aberhonddu yn ddiweddar: Ceri Roberts ac Elin James yng nghystadleuaeth Blwyddyn 7; Hannah Hellfield ac Esra Warren a Sharon Hanks ym Mlwyddyn 8/9, a Llion Jones ym Mlwyddyn 10/11. Roedd dros 90 o gystadleuwyr ymhob categori a llwyddodd ein disgylion ni i orffen mewn safle hynod anrhydeddus. Ras yr Wyddfa nesaf??

## Rygbi

Mae tîm Rygbi Blwyddyn 10 wedi bod yn brasgamu trwy eu gornestau, gyda'r llwyddiant diweddaraf yn dod mewn gêm yn erbyn Ysgol Dyffryn Nantlle, trwy ennill o 29 pwynt i ddim. Cafwyd gêm tipyn mwy cystadleuol yn erbyn Ysgol Emrys ap Iwan, gyda'r sgôr terfynol yn 18 i 17. Mae'r bechgyn rŵan drwodd i rownd gyn-derfynol cwpan Eryri.

## Ymweliad 'Hei Hogia'

Fel rhan o raglen hybu darllen ymysg pobl ifanc ymwelodd criw o actorion adnabyddus â'r ysgol er mwyn perfformio pytiau o olygfeydd cyffrous mewn nofelau cyfoes. Trefnodd yr Adran Gymraeg fod holl ddisgyblion Blwyddyn 8 yn mynd i gael cyfle i fwynhau'r perfformiad, felly cafodd bron i 130 o ddisgyblion fwynhau. Derbyniodd yr actorion groeso cynnes gan y disgyblion a chafwyd ymateb positif tu hwnt gan y disgyblion eu hunain. Yn y llun mae rhai o'r disgylion gyda'r actorion.



Pob lwc i holl gystadleuwyr Bro'r Eco yn Eisteddfod yr Urdd 2007

## Y Cynllun Darllen

Rhaglen lwyddiannus er hybu a chodi cyrhaeddiad darllen ein disgyblion yma ym Mrynrefail yw'r Cynllun Darllen. Caiff disgyblion sydd angen ychydig o hwb gyda'u darllen, yn naill ai'r Gymraeg, y Saesneg neu'r ddwy iaith, dreulio cyfnod yn y boreau yn darllen gyda thîm o diwtoriaid o'r chweched dosbarth, dan arweiniad Mrs Sharon Griffiths a Mrs Gwenno Bebb.

Braf yw gweld y cynnydd anhygoel a wnaed gan ein disgyblion eleni. Llwyddodd pob un ohonynt i godi eu hoed darllen yn sylweddol, a derbyniasant dystysgrif fel prawf o'u llwyddiant.





## Diwrnod y Trwynau Coch

Cafwyd nifer o amrywiol weithgareddau ar gyfer y diwrnod twy drefniant Fforwm Disgyblion yr Ysgol. Penderfynodd tair geneth o Flwyddyn 10 y byddent yn bod yn berffaith dawel am ddiwrnod cyfan er mwyn codi arian tuag at yr ymgyrch bwysig hon ( peth prin i enethod Brynrefail!!!!)

Da iawn Sera Jones, Manon Jones a Ceinwen Humphreys, am eich ymdrech deg. Gwisgodd Amy Owen ac Olivia Taylor o Flwyddyn 11 i fyny fel môr-ladron!! Diolch i bawb fu wrthi, a braf yw cyhoeddi fod £600 wedi'i godi, sy'n swm teilwng dros ben.

## Eisteddfod yr Urdd

Unwaith eto eleni bydd gan yr ysgol gynrychiolaeth gref yn yr eisteddfod, a gynhelir yng Nghaerfyrddin dros y Sulgwyn. Dyma'r criw buddugol:

Dafydd Griffith (Blwyddyn 8) ar yr Unawd Bechgyn;
Anest Bryn Jones (Blwyddyn 9) Stepio unigol i ferched Blwyddyn 7–9;
Grŵp Dawnsio Disgo 'Perlau Brynrefs';
Grŵp Dawnsio Gwerin Bl 10–13;
Anest Eifion: Dawns werin unigol i ferched;
Anest Eifion ac Anest Bryn: dawns stepio 1 2,3 neu 4, dan 25 oed;
Sasha Williams: Dawnsio Disgo Unigol Blwyddyn 10–13;
Band Pres yr Ysgol;
Sion Elwyn Hughes (Blwyddyn 10) a Lois Eifion (Blwyddyn 12): deuawd piano



## Disgybl y Mis

Llongyfarchiadau i Josh Rogerson Jones, o Flwyddyn 9, ar gael ei ddewis yn Ddisgybl y Mis gan yr Adran Gymraeg. Mae Josh yn aelod hynod weithgar o Set 4 ac yn dangos agwedd bositif tuag at holl waith y dosbarth. Mae'n cymryd ei waith o ddifrif bob amser a phleser yw derbyn ei waith cartref – mae o bob tro yn brydlon ac mae ôl ymdrech fawr arno. Bydd Josh yn derbyn pecyn *Uned 5* am ei ymdrechion. Da iawn ti Josh!

## Llwyddiant Pêl-fasged

Yn ddiweddar cynhaliwyd twrnament pêl-fasged ym Maes Glas ym Mangor a bu tîm Bechgyn A, Blwyddyn 8, yn fuddugol. Go dda, hogiau!

# DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

CYFARFOD PREGETHU CEFN Y WAUN. Cynhaliwyd y Cyfarfod Pregethu blynyddol ar Sul y Pasg. Y cennad gwadd oedd y Parchedig Emlyn Richards, Cemais, a chafwyd dwy bregeth ardderchog ganddo. Yn y bore, Mair Magdalen oedd ei destun ac yn y nos cafwyd pregeth rymus ar y testun 'Iesu, Cofa fi', sef geiriau'r lleidr ar y groes. Tystiodd pawb iddynt gael bendith o'r ddwy oedfa.

MERCHED Y WAWR. Nos Lun, 2 Ebrill, yn Nhŷ Elidir, cawsom gwmni Eirlys Williams, Bethel. Dangosodd sut i wneud pob math o bethau allan o ychydig iawn o ddefnyddiau a chafwyd cyfle i flasu rhai o'r danteithion. Anfonwyd cofion at Delyth yn yr ysbyty ac at Gwladys, sydd heb fod yn dda. Llywyddwyd gan Buddug Jones.

CÔR LL-55. Bydd Côr LL-55 yn cyflwyno 'Llwybrau'r Groes yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis ar 6 Mai am 7.00 yr hwyr. Tocynnau ar gael wrth y drws. Dewch yn llu i ddilyn Llwybrau'r Groes.

CYMANFA'R ANNIBYNWYR. Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr, Cylch Deiniolen a Chwm-y-glo, bnawn Sul, *20 Mai yng Nghapel Jeriwsalem, Llanberis.* Gwneir casgliad tuag at Gronfa'r Gymanfa.

Bydd y bws yn gadael Deiniolen am 1.25; Penisarwaun am 1.30; Cwm-y-glo am 1.35 ac yn cyrraedd Llanberis am 1.45.

Pris fydd £1 i oedolion. TAER erfynnir am eich cefnogaeth.

Newyddion Deiniolen ar gyfer rhifyn Mis Mai o Eco'r Wyddfa

GWELLHAD BUAN. Anfonwn ein cofion gorau at Ceirion Thomas, 3 Bron Helen, Clwt y Bont a gafodd ddamwain gas gyda'i fotobeic yn ddiweddar. Gobeithiwn yn fawr y bydd adref o'r Ysbyty yn fuan a dymunwn wellhad buan iddo.

Dymunwn wellhad buan i bawb arall sydd yn dioddef o waeledd ar hyn o bryd.

YMDDANGOSIAD AR Y TELEDU Yn ystod mis Ebrill ar y rhaglen *Cwpwrdd Dillad* ar S4C, gwelwyd wyneb cyfarwydd Sandra Morris, Caradog Place, yn arddangos cynnwys ei chwpwrdd dillad ac yn adrodd hanesion difyr am ei hoffter o siopau a siopio am fargeinion yn arbennig. Da iawn ti.

RHEDEG MARATHON ER BUDD YR YSGOL
Bu Mr Rhys ab Elwyn, Dirprwy Brifathro'r ysgol yn rhedeg ym marathon Llundain eto eleni er budd yr ysgol. Hoffem ddiolch iddo ac anfonwn ein dymuniadau da, ac os hoffai unrhyw un ei noddi, cysyllter â'r ysgol.


CYFARFOD PREGETHU CEFN Y WAEN. Dydd Sul y Pasg, clywyd y Parch. Emlyn Richards, Cemais yn cynnal oedfaon y Pasg yng Nghefn y Waen. Cafwyd cyfarfodydd difyr a hwyliog ac fe fwynhaodd y plant a fynychodd yr oedfaon yn arw.

GENEDIGAETH.
Llongyfarchiadau i Ieuan a Cheryl, Pentre Helen, ar enedigaeth merch fach yn ddiweddar, chwaer fach i Daniel a Shane. Dymunwn y gorau iddynt i gyd fel teulu.

CYLCH TI A FI. Mae Cylch Ti a Fi Deiniolen wedi ailddechrau cyfarfod yn ddiweddar ar bnawn dydd Llun, rhwng 1.15 a 2.45, yn yr Ysgol Feithrin. Mae croeso cynnes i rieni hefo plant o dan 4 oed fynychu a chael cyfle i gwrdd â rhieni eraill dros baned a bisged a chyfle i blant gael chwarae a chymysgu hefo plant eraill. Cost y sesiwn i'w £1.00 y plentyn. Am wybodaeth pellach cysylltwch â Dilwen yn yr Ysgol Feithrin.

CYFLWR Y PENTREF. Mae cyflwr cynyddol wael y pentref yn peri siom, tristwch a chywilydd mawr yn ddiweddar. Ni ellir cerdded unrhyw stryd nag ardal heb weld sbwriel, baw ci neu lanast eraill ar hyd y lle. Does dim balchder i'w weld gan bobl yn eu milltir sgwâr dim mwy, ac mae'r malu a'r llanast sy'n digwydd yn gynyddol yn gywilyddus. Dylid ceisio addysgu plant yn fwy am yr hyn sy'n digwydd, a'r rhan y gallant hwy eu gymryd i geisio gwella golwg y pentref.

Mae hefyd angen gwasanaethau mwy cyson a thrylwyr yn y pentref gan yr Awdurdod lleol i glirio'r llanast sy'n bodoli. Mae angen gwneud rhywbeth a hynny yn fuan neu mi fydd sefyllfa ddrwg yn mynd yn waeth.



## Gymnasteg

Cynhaliwyd cystadleuaeth Gymnasteg Eryri ar Fawrth 14eg yn Nghaernarfon. Llwyddodd Tîm Bechgyn Blwyddyn 9 ac uwch i sicrhau'r safle cyntaf gyda pherfformiadau arbennig gan Tomos Williams (Bl.9), Stephen Wardle (Bl.10), Aaron Jones (Bl. 10) a Gavin Roberts (Bl.10). Ymhellach, llwyddodd Aaron a Gavin (yn y llun) i sicrhau medal arian am ddod yn ail yn y cystadlaethau unigol.











# BLE YN Y FRO MAE'R RHAIN?

Am gyfle i ennill copi o *Y Llyfr Enwau* anfonwch eich atebion i storiau@ecorwyddfa.co.uk



***Dau lun o Llanberis wedi eu cyfuno - sgwn i pryd tynnwyd rhain?***

*(Parhad o dudalen flaen)*

gweithio'n gyson efo'r cwmni ers y cychwyn yn 2000.

Yn ystod y tri mis yn arwain at y sioe fe weithiodd y plant a'r bobl ifanc yn anhygoel o galed ym mhob sesiwn, yn dysgu caneuon, dawnsfeydd a sgript, a hoffai Ymddiriedolwyr Rygarug ddiolch i BAWB fu'n gweithio mor galed tuag at lwyddiant y sioe eleni.


Os hoffech fwy o wybodaeth am weithgareddau RYGARUG neu os hoffech fod yn aelod cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Swyddfa Rygarug, d/o Ysgol Gynradd Llanrug, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd. LL55 4AL, neu drwy e-bost at pennaeth@llanrug.gwynedd.sch.uk



*Iestyn Owen.*




*Heledd Anna Roberts.*



*Chris Roberts.*






*Ilid Angharad Jones.*



# Galwad y Gwanwyn!

Ydych chi wedi clywed y gwcw yn canu eleni? Neu, ydych chi wedi sylwi ar y wennol yn gwibio heibio, neu'r clychau'r gog yn eu blodau urddasol? Dyma ychydig o'r nifer o wahanol arwyddion fod tymor y gwanwyn wedi ein cyrraedd!

Os allwch chi helpu gyda chwestiynau fel hyn neu'n hoff o arsylwi ar fyd natur, mae Partneriaeth Natur Gwynedd angen eich help!

Bydd Arolwg y Gwanwyn, yr ail mewn cyfres o arolygon o dymhorau'r flwyddyn, yn cael ei gynnal ledled Gwynedd ac yn gofyn am gofnodion o wahanol fywyd gwyllt yr ydych chi yn eu gweld yn ystod y gwanwyn.

Mae Natur Gwynedd yn awyddus i wybod lle'r ydych chi wedi gweld rhywogaethau amrywiol, megis y frân goesgoch neu'r gornchwiglen, neu pa fath o gasys wyau (morgathod a chathod môr) ydych chi welsoch chi wedi'u golchi ar lan y môr.

Gyda newid hinsawdd i'w weld yn dylanwadu ar y tymhorau, mae swyddogion hefyd yn awyddus i wybod pryd y gwelwch neu y clywch chi rai o arwyddion y tymor – ee. cân adnabyddus y gwcw! Gyda chymaint o rywogaethau yn diflannu ac amseriad y tymhorau yn newid o ganlyniad i newid hinsawdd, bydd gwybodaeth fel hyn o gymorth mawr wrth fonitro cyflwr bywyd gwyllt Gwynedd.

'Yn ogystal â rhoi gwybodaeth ar gyflwr ein bywyd gwyllt, bydd yr arolwg hefyd yn ein galluogi i dargedu prosiectau gwaith ar gyfer rhywogaethau penodol. Os nad ydym yn gwybod am bresenoldeb rhyw greadur arbennig, sut mae disgwyl ymdrechu i'w helpu yn y mannau hynny?' meddai Bryn Griffiths, Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd.

'Rydym eisiau i bawb gymryd rhan yn yr arolwg hwn – os ydynt un ai yn gwylio natur yn rheolaidd neu'n cofnodi bywyd gwyllt am y tro cyntaf – mae gan pawb rôl yn yr arolwg. Os ydych chi'n gweld un o'r rhywogaethau sydd yn yr arolwg gwnewch nodyn o ble (byddai cyfeirnod grid yn wych!), a'r dyddiad.'

Os ydych yn ansicr wrth adnabod rhai o'r rhywogaethau, gallwch fynd i'n gwefan am fwy o wybodaeth neu luniau i'ch helpu,' ychwanegodd.


Mae'r rhywogaethau, ac arwyddion y gwanwyn, yn weddol hawdd i'w hadnabod ond mae cyfle hefyd i ychwanegu mwy o wybodaeth petai rhywun wedi dod ar draws rhywbeth arall o ddiddordeb.'

Am restr lawn o'r rhywogaethau dan sylw neu i gymryd rhan yn yr arolwg ewch i safle wê Natur Gwynedd: www.gwynedd.gov.uk/bioamrywiaeth-cofnodion neu os am ffurflen bapur i'w llenwi, cysylltwch â Thîm Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd ar (01286) 679381.

Ychwanegodd Bryn, 'Ond gobeithiwn hefyd y bydd pobl yn mwynhau cymryd rhan yn yr arolwg a thrwy hynny yn dod i adnabod natur eu hardal leol yn well.

Cofiwch, mae pob cofnod yn werthfawr iawn i ni felly ewch ati – edrychwch allan a chofnodwch fywyd gwyllt eich ardal!'






**Hoffech chi eistedd yn y gadair ddu enwog? Dyma'ch cyfle!**

Mae Mastermind Cymru yn chwilio am gystadleuwyr ar gyfer y gyfres nesaf.

Gweler y daflen am fanylion pellach neu ewch i bbc.co.uk/mastermindcymru


# DODREFN PERKINS

**(Safle'r hen Nelson)**
**CAERNARFON**

**Ffôn: (01286) 676 040**

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Carpedi, Llenni a Lloriau Pren**



**Byddwch yn llawer gwell allan hefo Ni!**

AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN

SKODA BMW PEUGEOT FIAT

IMPORTS GERMAN SWEDISH



Y Dewis arall Dibynadwy i Wasanaeth Y Prif Ddeliwr. Beth bynnag rydych yn ei yrru, o Audi i VW...

Shell HELIX

MOT

Ceir Benthyg **AM DDIM**

Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD

**(01286) 673559** www.a-v-w.co.uk

AVW Advanced Vehicle Workshop **Car Service** BOSCH Service

VOLVO MERCEDES SAAB



# ETHOLIAD CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU
## 3 Mai 2007



Rhowch eich **dwy** bleidlais i Blaid Cymru ar Fai y 3ydd i gael y **ddau** i'r Cynulliad

**Alun Ffred Jones (Arfon) a Dafydd Wigley (Gogledd Cymru)**

**PLAID CYMRU**

Hyrwyddwyd gan Plaid Cymru, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd (01286) 672510

# CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar y 3ydd o Ebrill.

**Gweddi** Offrymwyd y weddi gan Richard Ll. Jones.

**Cofnodion Mawrth**

Cywiriad: Teithwyr Chwarel Fachell. Cyfarfod â Chyngor Gwynedd yr oedd y Bar Gyfreithiwr ac nid â Huw P. Hughes fel unigolyn. Ychwanegodd H. P. H. y bydd rhybydd iddynt adael y safle yr wythnos yma.

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir fel arall.

**Materion o'r Cofnodion**

*Cysgodfannau bws.* Cyfeiriwyd at sawl cysgodfan a fandaleiddiwyd eto ac ystyriwyd cysgodfannau cefn a tho yn unig, paneli metel yn lle *pollycarbonate* neu eu diddymu'n llwyr. Penderfynwyd eu gwneud yn ddiogel ac ystyried eu hatgyweirio rhyw dro eto os bydd llai o fandaliaeth yn y pentrefi. Ar hyn o bryd mae ieuenctid o Lanrug yn teithio i Fethel a Ddeiniolen gyda'r nosau.

*Un Llais Cymru.* Gofynnodd Len Jones a oedd ateb i'r llythyr yn gwrthod talu aelodaeth oherwydd eu diffyg trefn, addawodd y Clerc eu hatgoffa.

*Tawelyddion ar ffordd Tremeilian* – ateb Gwynedd nad yw'r ffordd yn ddigon llydan. Dywedodd Phyllis Ellis y bydd arwyddion cyfyngder cyflymdra yn yr ardal gyda hyn.

Awgrymodd Geraint Hughes bod y Cyngor yma yn cyflwyno anghenion gwella ansawdd ffyrdd i Wynedd ac ychwanegodd Len Jones mai'r gŵyn fwyaf ar hyn o bryd yw cyflwr waliau y mae tirfeddianwyr yn gyfrifol amdanynt.

Cyfeiriodd Elspeth Mitcheson at y ceir 'ar werth' wrth ochr y ffyrdd a dywedodd Huw P. Hughes nad yw'r ddeddf a ddefnyddir gan y Siroedd yn cynnwys parcio ar bafin neu welltglas ar ochr ffordd.

Cyfeiriwyd at adeiladau blêr a sbwriel – adrodd i Wynedd.

*Cysgodfan Bws Rhiwlas.* Pris lloches cefn a tho fyddai £3,500. Mae Gwynedd yn gobeithio y gellir sicrhau arian ar gyfer y math yma o brosiect o'r Cynulliad o 2008 ymlaen.

*Gerlan, Clwt y Bont.* Cofnod Gwynedd o'r cyfarfod gyda Gwilym Williams ar y safle.

1. Ceisir atal dŵr rhag dod i'r ffordd ond os na fydd hynny yn llwyddianus rhoir blwch halen yno erbyn y gaeaf nesaf.
2. Trefnir *seidio'r* ffordd lle mae angen.
3. Rhoir sylw i'r bwlch sydd yn y wal yn fuan.

*Stad Cremlyn, Bethel.* Derbyniwyd, trwy law Huw P. Hughes, ddeiseb y trigolion i Wynedd yn ymbil am gael golau cyhoeddus yno.

*First Hydro. Perygl o lifogydd i'r cwm o Lyn Padarn.* Ateb yn cadarnhau eu hadroddiad i'r Cyngor ym mis Chwefror 2006 na ollyngir dŵr o Lyn Peris i Lyn Padarn tan i lifogydd gilio.

Ateb yn dweud nad yw'r gwastraff chwarel sydd ganddynt yn addas i wynebu llwybrau, mae deunydd pwrpasol i'w gael o chwarel Penrhyn. Gellir rhoi cais iddynt am gymorth ariannol ar gyfer wynebu llwybrau.

Derbyniwyd diolch am gymorth ariannol oddi wrth Bwyllgor Neuadd Penisa'rwaun.

**Gohebiaethau a materion eraill**

Cefnogwyd awgrym Hefin Williams i ofyn i Wynedd roi biniau brown ym mynwentydd yr ardal.

Derbyniwyd:

1. gwahoddiad Bwrdd y Fyddin i '*Sesiwm Friffio*' yn Galeri, Caernarfon.
2. adroddiad 'Gwynedd ar y Cyd'
3. Adeiladu i'r Dyfodol Gwynedd – Gwasanaethau preswyl i Bobl Hŷn.
4. rhifyn *Mynd amdani* – Her Iechyd Cymru.
5. taflen ar y newidiadau i'r rheolaeth parcio
6. *Llunio'r dyfodol* – Awdurdod Parc Cendlaethol Eryri
7. gwybodaeth ar 'Cymru yn ei Blodau' a drefnir gan The Royal Horticultural Society. Cefnogwyd syniad Geraint Hughes i ofyn i'r Gymdeithas ddanfon y manylion i ysgolion yr ardal.
8. manylion etholiad y Cynulliad

**Cynllunio**

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Adeiladu storfa: Parc Padarn.

Estyniad: 1. Helen Villa, Clwt y Bont.

Dymchwel rhan o adeilad a chodi adeilad amaethydol: Fferm Bron Eilian, Dinorwig.

Estyniad deulawr: 32, Pentre Helen, Deiniolen.

Dymchwel y tŷ presennol a chodi tŷ newydd: Inglenook, Stryd y Capel, Rhiwlas.

Gofynnwyd am fwy o fanylion am y cais yma fel:

1. Beth fydd uchder yr adeilad a fwriedir?
2. Mae un mur o'r adeilad a fwriedir ei ddymchwel hefyd yn rhan o fur y Capel. Pa drefniadau a wnaed i sicrhau y bydd wal y Capel yn iawn ac o safon derbyniol?
3. A fydd y tŷ newydd yn gweddu i'r ardal o'i gwmpas?
4. Dengys y cynllun fynedfa newydd i geir. Bydd lleoliad y fynedfa newydd yma yn cymryd lle y llecyn parcio presennol. Mae lleoedd parcio yn brin iawn yno'n barod.

Stryd Tabernacl, Deiniolen: derbyniwyd ateb Gwynedd bod y cais wedi ei newid i un tŷ yn unig a bod hynny wedi ei ganiatáu.

Cais a ganiatawyd gan Wynedd: Addasu adeilad allannol i 2 uned gwyliau: Fferm Garth Fawr, Y Felinheli.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 5ed o Fehefin.

# CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf yn Ysgol Gymuned Cwm y Glo ar Fawrth 20fed. Croesawodd y Cadeirydd, Dafydd W. Thomas, bawb i'r cyfarfod a chadarnhawyd cofnodion Chwefror 17eg yn gywir.

Datganwyd buddiant personol gan sawl cynghorydd gan fod ceisiadau am gymorth ariannol ar y rhaglen. Dosbarthwyd arian fel a ganlyn: £30 i Gymdeithas Alzheimer; Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerfyrddin; Cyfeillion Samariaid Gogledd Cymru; Cymdeithas Spina Bifida & Hydrocephalus Gogledd Cymru; Clwb Rygbi Caernarfon.

£150 i Ysgol Cwm y Glo tuag at gostau eu taith i lawr i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd; £500 i Ysgol Feithrin Llanrug; £550 i Glwb Pêl-droed Llanrug; £1800 i Sefydliad Coffa Llanrug.

**Ceisiadau Cynllunio newydd**

Dim gwrthwynebiad i godi lolfa wydr yn 1 Cae Newydd, Llanrug, nac i ddymchwel y porth car presennol a chodi un newydd yn 3 Plas Pantafon, Llanrug. Nid oedd gwrthwynebiad i godi estyniad ar Tan y Coed Canol, Ceunant, ond mynegwyd pryder ynglŷn â'r adeiladau, fel y caban pren sydd tu allan i'r cwrtil.

Mae'r safle bws ger Corlan y Rhos wrthi'n cael ei lanhau a'i drwsio o'r diwedd. Fe wneir y gwaith gan Mr. Eddie Pugh a'i fab Alyn. Mae Cyngor Gwynedd yn gweud ymholiadau am y cord uchel sydd o gwmpas Corlan y Rhos. Mae amheuaeth ynglŷn â phwy biau'r coed, ac felly pwy ddylai dalu am eu torri.

Daeth i sylw fod llanast mawr ar y llwybr cyhoeddus wrth afon Ogwen yn Llanrug ac mae'n amlwg fod cryn yfed yn digwydd yno. Y clerc i gysylltu â'r Heddlu, Asiantaeth yr Amgylchedd a pherchennog y tir gerllaw.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae cryn lanast wedi casglu yng nghorneli cae chwarae Pwll Moelyn. Y clerc i gysylltu ag Adram Gwarchod y Cyhoedd a hefyd gofyn i'r gwasanaeth newydd o dan yr enw 'Gangiau Cymunedol Gwynedd' a yw'n bosibl iddynt hwy glirio'r safleoedd.

Mae'r Cwnstabl Philip Kennedy (Rheolwr Rhawd Gymunedol) yn awyddus iawn i gynnal cyfarfodydd yn wythnosol ar gyfer trigolion lleol. Os bydd gan rhywun unrhyw bryderon ac eisiau eu trafod gyda'r heddlu yna bydd croeso i unrhyw un droi i mewn. Mae'n bur debyg mai yn y Sefydliad Coffa Llanrug y cynhelir rhain. Fe gawn fwy o wybodaeth yn fuan. I gysylltu â'r Cwnstabl Kennedy cewch ffonio ei ffôn symudol ar 07810814037 yn ystod ei oriau gwaith. Tu allan i rheiny bydd angen ffonio y rhif arfeol – 01286 673333

Aeth dau gynghorydd, ynghyd â'r clerc, i'r Cyfarfod Cynghorau Tref a Chymunedau yng Nghaernarfon i gael ateb i gwestiynau a anfonwyd i'r swyddogion ymlaen llaw. Addawyd fod y llinellau melyn a gwaharddiad cyflymder yn mynd i gael eu gosod yn fuan yng Nghwm y Glo. Mae gwaith wedi ei gychwyn ar y palmentydd ac ar y briffordd yno eisoes.

Trafodwyd yr amcanbris gan Menter Fachwen ar gyfer torri gwair yn yr ardd gymunedol yng Nghwm y Glo. Pasiwyd fod hwn yn cael ei dderbyn.

Gofynnwyd i'r cynghorwyr ddewis enw ar gyfer y tai newydd fydd yn cael eu hadeiladu yng Nghwm y Glo yn fuan. Penderfynwyd ar yr enw Cae Tŷ Draw, gan mai dyma'r enw sydd wedi cael ei ddefnyddio gan y trigolion ar hyd y blynyddoedd am y llecyn hwn.

Mae'r ganolfan Caergylchu wedi ei hagor yn y Cibyn yng Nghaernarfon a gobeithir rŵan y bydd pawb yn manteisio ar y cyfleusterau yma.

Gofynnwyd i'r cyngor ystyried derbyn gwasanaeth cwmni UHY Hacker Young fel Archwilwyr Allanol ar gyfer 2007/2008. Pasiwyd i barhau gyda'r gwasanaeth hwn.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Y Sefydliad Coffa yn Llanrug ar Ebrill 17eg am 7 o'r gloch.

# CHWILOTA

## PEKING, PARIS A BETWS GARMON



Ar y diwrnod olaf o fis Ionawr 1907 ymddangosodd pennawd ym mhapur dyddiol *Le Matin* ym Mharis yn herio modurwyr i fentro ar daith anhygoel o Baris i Peking. O fewn ychydig oriau i'r papur ymddangos, roedd y Marquis de Dion, Llywydd y de Dion-Bouton Motor Corporation a sylfaenydd Clwb Moduro Ffrainc, wedi derbyn y sialens. Un arall a dderbyniodd y sialens oedd Contal, perchennog cwmni oedd yn cynhyrchu cerbydau tair olwyn – y mototri – fawr mwy na'r beiciau tair olwyn a ddefnyddid i werthu hufen iâ. O fewn wythnos roedd cyfanswm y rhai a dderbyniodd y sialens wedi cyrraedd deg, a phob un ohonynt yn eiddo i gwmnïau cynhyrchu ceir. Yn fuan iawn hefyd, penderfynodd y pwyllgor a drefnodd y fath sialens, i gynnal y ras o Peking i Baris er mwyn osgoi'r tymor gwlyb yn China, a rhoi rhywfaint o gymorth i'r 'gyrrwyr gwirion' fel y daeth y cystadleuwyr i gael eu hadnabod.

Amcangyfrifid fod angen tua £20,000 i gynnal car a thîm ar gyfer y daith. Oherwydd y gost, penderfynodd y mwyafrif o'r cwmnïau gwtogi ar eu cynigion cynharach, a chystadlu gydag un car yn unig. Charles Godard, cyn joci a gyrrwr moto-beic ar y 'Wall of Death' yn un o ffeiriau mwyaf Paris oedd un o'r gyrrwyr a gollodd ei le yn y ras. Roedd wedi ei ddewis i ddreifio ail gar Metallurgique o Wlad Belg. Ond roedd a'i fryd ar wneud y daith, ac aeth ar ei union i weld cynrychiolydd Cwmni Spijker ym Mharis, ac wedi hir drafod, prynodd diced trên i Amsterdam a chyflwyno'i hun yn Ffatri Trompenburg, cartref y gwneuthurwyr ceir Spijker.

Jacobus Spijker a'i frawd, Hendrik, oedd perchnogion y cwmni, ac er mwyn marchnata eu cerbydau y tu allan i'r Iseldiroedd, newidiwyd enw'r car i Spyker. Roedd y cwmni wedi bod yn gwerthu eu ceir ym Mhrydain ers tua pedair blynedd, a hynny trwy asiant yn Bradford. Yn anffodus, erbyn diwedd 1906, roedd Cwmni Spyker mewn trafferthion ariannol, a daeth Hendrik Spijker i Brydain i geisio cytundebau mwy ffafriol gyda'i asiant newydd, y British Automobile Syndicate. Ond roedd ar yr un pryd yn ceisio marchnata gyda'i gyfeillion o



Bradford, y teulu Elsworth. Ar Chwefror 20fed 1907, hwyliodd y stemar *Berlin* o Harwich am yr Iseldiroedd. Ar ei bwrdd roedd Hendrik Spijker, yn dychwelyd ar ôl ei daith marchnata. Daeth yn storm anferthol, a drylliwyd y llong. Collodd 129 o bobl eu bywydau, a Hendrik Spijker yn eu plith.

Doedd hi ddim yn amser da iawn felly i Charles Godard ofyn am gar i gystadlu mewn ras o Peking i Paris; ras a allai gostio'n ddrud i gwmni oedd eisoes mewn trafferthion ariannol. Er hynny, penderfynodd Jacobus Spijker ei gefnogi, a chynnig gwobr o 10,000 franc iddo os enillai! Doedd yr arian ddim ganddo, ond os byddai Godard yn ennill, yna byddai'r clod a'r gwerthiant ar geir Spyker yn sicrhau llwyddiant ariannol y cwmni.

Hanes anhygoel yw hanes y ras ei hun, a'r modd y cynllwynwyd gan *Le Matin* i gael Goddard wedi ei arestio cyn cyrraedd Paris rhag ofn i gar o'r Iseldiroedd ennill car o Ffrainc! Mae'r hanes i'w gael yn y llyfr *The Mad Motorists* gan Allen Andrews.

Ond beth sydd a wnelo hyn oll â Betws Garmon? Unwaith eto, mae'r hanes yn dod â ni'n ôl i Dan y Garreg. Yn rhifyn Nadolig/Ionawr soniais am ŵr o'r enw Johannes G. Stegoe, gŵr o'r Iseldiroedd, yn byw yno. Y sillafiad cywir ar yr enw yw Stegwee, ac yr oedd wedi symud i Fetws Garmon i helpu gyda rhai o broblemau technegol y gwaith mwyn haearn ar lethrau'r Foel Eilio. A Johannes G. Stegwee oedd un o brif beiriannwyr Cwmni Spijker, ac ef fu'n gyfrifol am deithio gyda Charles Goddard o ffatri Trompenburg i Baris. Teithiodd y ddau o Amsterdam i Reims mewn gêr isel, a gynlluniwyd yn arbennig i gar Spyker ymdopi â diffeithdiroedd Asia.

Wedi cyrraedd Paris, Stegwee oedd yr un a fu'n gyfrifol am oruchwylio gwaith peirianneg a mecanyddol y car am y tro olaf cyn iddo gael ei anfon ar long i Peking ar gyfer cychwyn y ras.

Er fod car Spyker wedi llwyddo yn y ras o Peking i Baris, ac er iddo dderbyn canmoliaeth uchel am beirianwaith y car, dair wythnos wedi cwblhau'r ras galwyd cyfarfod anghyffredin o gyfranddalwyr y cwmni. Cafodd Jacobus Spijker ei ddiswyddo fel cyfarwyddwr. Ar y 1af o Ebrill 1908 aeth y cwmni'n fethdalwyr – a dyna ddiwedd cysylltiad y teulu Spijker. Ailffurfiwyd y cwmni gyda'r un enw, ond â chyfarwyddwyr newydd, a daeth yn llwyddiannus ym maes peirianneg – yn enwedig awyrennau.

O fewn ychydig flynyddoedd yr oedd Spijker a Stegwee ym mro'r *Eco* – a'u diddordeb yng ngwaith mwyn haearn llethrau Moel Eilio. Sefydlodd teulu Stegwee ym Metws Garmon am gyfnod, ac yr oedd mab y peiriannydd yn parhau mewn cysylltiad â'r ddiweddar Mary Vaughan Jones, Waunfawr hyd tua 1990.

Yr oedd nifer o gwmnïau wedi bod yn cloddio yma'n barod; yn eu plith, Syr Alfred Hickman a'i Gwmni o Wolverhampton. Cloddiwyd am haearn yn y Garreg Fawr Iron Mine (yr uchaf ar y llethrau), Ystrad (Betws Garmon Iron Ore and Smelting Company) a'r Silurian Iron Ore Company. Roedd y cyfan wedi cau erbyn 1920.

Cwmni Hickman, mae'n debyg, a fu'n gyfrifol am adeiladu'r *aerial ropeway* o Fetws Garmon dros ystlys Moel Eilio ac i lawr i Lanberis. Cawn fwy o hanes y cloddio a'r dynion a fu'n gysylltiedig â'r gwaith yn y rhifynnau nesaf.

**Sefydlu'r Urdd yn Llanberis**

Mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar ein gwarthaf unwaith eto, ac er mai yn y de y cynhelir hi eleni, mae nifer o blant yr ardal wedi llwyddo i fynd trwodd i'r cystadleuthau terfynol. Pryd tybed y dechreuwyd sefydlu canghennau o'r Urdd yn y fro hon? Roedd tua 700 o aelodau yn perthyn i'r mudiad pan sefydlwyd ef yn 1922, ond mae dros 50,000 o aelodau erbyn heddiw.

Mae'r llun o Gangen Llanberis ym meddiant Mrs Dwynwen Roberts (Pritchard gynt), Frondeg, Llanberis, a diolch i Eifion Roberts am gofnodi'r enwau ac anfon y wybodaeth ymlaen i mi. Tybir mai llun yw hwn o aelodau gwreiddiol Cangen Llanberis, ac iddi gael ei sefydlu tua 1926. Tynnwyd y llun ar y darn tir sydd ar y chwith, ychydig yn uwch na Olgra Terrace, ac yr oedd y gangen yn cyfarfod yn Festri Capel Preswylfa. Credir fod o leiaf bedwar o'r aelodau gwreiddiol yn fyw heddiw.

Yn hytrach na rhoi'r enwau yn y llun, aeth Eifion a Mrs Roberts ati i geisio rhoi eu cysylltiadau â phobl eraill yn Llanberis, er mwyn i'r genhedlaeth bresennol geisio eu hadnabod.

Os oes camgymeriadau, neu os oes enwau anghywir, yna cysylltwch ag Eifion Roberts (Becws gynt). Nid yw'r enwau yn golygu fawr ddim i mi, ond i chwi drigolion Llanberis...

*(Rhes flaen):* 1. Jennie Thomas (chwaer John Sam); 2. Priscilla Mae Thomas (chwaer Peris Thomas); 3. Leah Lloyd (Becws John Lloyd).

*(Rhes gyntaf):* 1. ?, 2. Dwynwen Pritchard, Frondeg; 3. Megan Lloyd Hughes (chwaer Ifan Wilson); 4. Julia Hughes (mam Ken Sellers); 5. Grace Annie Jones (chwaer Wil Madog); 6. Catherine Lloyd (chwaer Bob Lloyd, Charlotte Street); 7. Gwen Penny (mam Noel Owen); 8. Jenny Rees Hughes (gwraig Tom Lennon); 9. Michael Lewis Thomas (brawd John Sam); 10. Dick Williams (Dic Chips); 11. ?; 12. Ifan Kitchener (Yankee Street); 13. Jackie Asblet Hughes (Rock Terrace, mab Bob Hughes, codwr canu Capel Preswylfa); 14. Selwyn Rowlands, Bee Hive; 15. Ted Burgess (hanner brawd Norman Pritchard); 16. Owain Lloyd (brawd Leah Lloyd); 17. Ifan Huw Jones (brawd Wil Madog).

*(Rhes Ganol):* 1. Huw Griffiths (tad Iona Griffiths); 2. Willie Glyn (brawd Jennie Wheldon);



3. Dic Glanllyn; 4. ?; 5. Huw Mac (ewythr Islwyn Coed); 6. Edwin Jones (brawd Mrs Bayliss); 7. Bob Roberts (Moulder); 8. Bob Lloyd (Charlotte Street); 9. Wil Madog; 10. Jackie Griffith (mab Bob Woolfall); 11. John Glyn (Glanllyn – lladdwyd yn yr Ail Ryfel Byd); 12. Elwyn Lloyd Hughes (tad Gwyndaf, ffotograffydd yr *Eco*); 13. Arfon Glyn (Cambrian Terrace).

*(Rhes Gefn):* 1. Gweinidog Capel Wesla?; 2. Ceinwen Hughes (mam Elwyn Wilson Jones),; 3. Alice Lloyd (mam John Elwyn Thomas); 4. Enid (chwaer Gwilym Trapar),;5. Olwen Stesion; 6. Enid (Elidir View); 7. Eirlys Erlan Davies (chwaer Dafydd Parry, Llainwen); 8. Sybil Pritchard (chwaer Moi Pritchard, Plas Tirion); 9. ? (chwaer Olwen Stesion); 10. Gwyneth Arfon (modryb Maureen Lennon); 11. Maggie Hughes (mam Ruby Price); 12. Megan Peris (Llainwen); 13. Elizabeth Hughes (chwaer Mrs Maxwell, Warden Street); 14. Gracie Wheldon (chwaer Annie Wheldon); 15. Letitia Thomas (Newton Street); 16. Mary Gwyneth (mam Dr Carl Clowes); 17. Meiriona Williams (chwaer Dic Chips); 18. Matilda Pritchard (Newton Street); 19. Myfi Davies (gwraig Alun Plas Coch); 20. Grace Ann Moxoxn (Olgra Terrace); 21. Jennie Maxwell (Warden Street).

**Pictiwrs Llanberis**

Gan Eifion Roberts hefyd y daeth mwy o wybodaeth am yr hen sinema yn Llanberis. Mae ganddo hysbyseb, a atgynhyrchir yma, yn dyddio o 1925, ac a gyhoeddwyd yn y *Llanberis and Snowdon Official Guide*. Gweler mai yr 'Empire' oedd yr enw arno bryd hynny. Yn ddiddorol, cyhoeddwyd y cyfeirlyfr am Lanberis gan y 'Llanberis Improvement Association'. Tybed pwy oedd aelodau'r corff hwnnw? Rhai fyddai'n manteisio o'r diwydiant ymwelwyr, mae'n debyg. Os oes rhywun â mwy o wybodaeth am y Llanberis Improvement Association, a'r math o welliannau oedd ganddynt dan sylw, yna anfonwch air.

Mae gan Eifion hefyd raglen yn dyddio o 1957 sy'n rhestru'r ffilmiau oedd i'w dangos yn y sinema am fis Gorffennaf. 'Y Concert Hall Cinema' oedd yr enw a ddefnyddid erbyn hyn, ac mae'n ddiddorol gweld fod rhai o'r busnesau lleol yn manteisio ar y cyfle i hysbysebu eu nwyddau – Shop Gongol am bethau da i fynd i'r pictiwrs, a sglodion a sgodyn o'r Belmont Supper Bar wedi'r sioe!

**Dathlu Diwedd Caethwasaeth**

Mae'r 'ymddiheuro' drosodd, a William Wilberforce wedi ei anfarwoli mewn ffilm ac ar stampiau post. Ond beth am y cysylltiadau Cymreig? Yn *Y Genedl Gymreig* am fis Awst 1887, ceir adroddiad am y Parch Erasmus Jones yn dychwelyd i'w fro enedigol, ac yn cael croeso brwd yn Seion, Llanddeiniolen. Yno, yn y capel bach (sydd newydd ei ddymchwel yn ystod yr wythnosau diwethaf), cynhaliwyd Cyfarfod Dathlu ei Ddychweliad. Traddododd yntau ddarlith i'w gynulleidfa ar yr ymdrech y bu ef yn rhan ohoni i ddileu caethwasaeth yn America. Adroddodd hefyd am ei brofiad yn gaplan am ddwy flynedd ar gatrawd o filwyr duon. Tybed oes rhai o deulu Erasmus Jones yn parhau yn yr ardal?

**Teulu o Benisarwaen**

Bu gwraig o dde Lloegr mewn cysylltiad â mi'n ddiweddar yn chwilio am gysylltiadau teuluol ym Mhenisarwaen. Mae'n awyddus i dderbyn gwybodaeth am deulu y diweddar Gwyndaf Rowlands, 21 Bryntirion, gynt, a fu farw yn 1970 ac a gladdwyd ym mynwent Santes Helen. Mae'n fwy na phosibl fod amryw o'r darllenwyr yn adnabod aelodau o'r teulu. Cysylltwch â mi, a gallaf anfon y wybodaeth ymlaen neu eich rhoi mewn cysylltiad â'r wraig o Loegr.

A dyna ddigon, mi dybiaf, i gnoi cil arno am y mis. Mwy o hanes gwaith haearn Betws Garmon a'r *aerial ropeway* i Lanberis yn y rhifyn nesaf.

Cofiwch anfon unrhyw ymholiad neu hanesyn i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (01286 673515).

for JULY, 1957

**CONCERT HALL CINEMA**
LLANBERIS — Tel. 340

EACH EVENING at 7-0 p.m.
SATURDAY at 5-30 and 8-0 p.m.

PRICES : 1/9 and 1/3

AFTER THE PICTURES — Don't forget your FISH & CHIPS from
**THE BELMONT SUPPER BAR**
(J. G. Wilson and W. T. Jones)
HIGH STREET, LLANBERIS
Open Nightly except Friday and Mid Day Friday.
For the Best Quality Fish and Chips.

VISIT THE

**Empire Cinema,**
Llanberis.

SHOWING ONLY THE BEST PICTURES AND TALKIES.

Popular Prices. See Bills.

**Monday, July 1st.** **For 2 Days**
Kirk Douglas, Elsa Martinelli in
**INDIAN FIGHTER** (U)

**Wednesday, July 3rd.** **For 2 Days**
Frank Sinatra and Kim Novak in
**THE MAN WITH THE GOLDEN ARM** (X)

**Friday, July 5th.** **For 2 Days**
Charles Chaplin in
**THE GOLD RUSH** (U)

**Monday, July 8th** **For 2 Days**
Robert Mitchum and Genevieve Page
**FOREIGN INTRIGUE** (A)

**Wednesday, July 10th.** **For 2 Days**
Bing Crosby and Mitzi Gaynor in
**ANYTHING GOES** (U)

**Friday, July 12th.** **For 2 Days**
Terence Morgan and Yolande Donlan
**THEY CAN'T HANG ME** (A)

**Monday, July 15th** **For 2 Days**
Judy Holliday and Paul Douglas in
**THE SOLID GOLD CADILLAC** (U)

**Wednesday, July 17th.** **For 2 Days**
Ed. G. Robinson, Kevin McCarthy in
**NIGHTMARE** (A)

**Friday, July 19th.** **For 2 Days**
Dirk Bogarde and Susan Stephen in
**FOR BETTER, FOR WORSE** (U)

**Monday, July 22nd.** **For 2 Days**
William Holden and Deborah Kerr in
**THE PROUD AND PROFANE** (A)

**Wednesday, July 24th.** **For 2 Days**
Sterling Hayden and Coleen Gray in
**THE KILLING** (A)

**Friday, July 26th.** **For 2 Days**
Anthony Steel and Laurence Harvey
**STORM OVER THE NILE** (U)

**Monday, July 29th.** **For 2 Days**
Phyllis Calvert and Guy Rolfe in
**IT'S NEVER TOO LATE** (U)

**Wednesday, July 31st.** **For 2 Days**
Spencer Tracy and Robert Wagner in
**THE MOUNTAIN** (U)

**BEFORE THE SHOW, GET YOUR SWEETS, CHOCOLATES & CIGARETTES, FROM**

STOCKISTS OF ALL THE LEADING BRANDS
—
WALL'S ICE CREAM etc.

**J. G. OWEN**
GLASGOW HOUSE (SHOP GONGOL)
LLANBERIS

Booking and Enquiry Office for CROSVILLE MOTOR SERVICE
Telephone 354

# Gŵyl Fai

ANTUR WAUNFAWR

**Hwyl i'r holl deulu**
**Family fun for everyone**

**Dydd Sadwrn Mai 5ed 2007 am 1yh**
**Saturday 5th of May 2007 at 1pm**

Amrywiol stondinau, crefftwyr ac adloniant.
Gerddi Bryn Pistyll yn agor am y tymor newydd.
Siop a Caffi ar agor.
Cystadleuaeth gwisg ffansi i blant.

Various stalls, crafts and entertainment.
Bryn Pistyll gardens opening for the new season.
Shop and café will be open.
Fancy dress competition for children

Mynediad / Admission
Oedolion / Adults £1.00
Plant / Children 50c/p

Am Fanylion / For details
Antur Waunfawr - 01286 650 721
heulwen@anturwaunfawr.org
www. anturwaunfawr.org



J.M. JONES A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

**Y Sgwâr Llanrug**

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael –

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)



**Dylan Griffith**

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN
Yn gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys
PENISARWAUN, DEINIOLEN, LLANRUG A LLANBERIS
Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.
24 awr y dydd
Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833
Symudol: 07778 127394

HEFYD
CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA





Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill


## Casglu Hanes Bro'r Eco

Ysgol Gynradd Llanrug
Llanrug,
Caernarfon,
LL55 4AL

Annwyl Gyfeillion

Ychydig fisoedd yn ôl fe wnaeth aelodau o bwyllgor Rygarug ac Ysgol Gynradd Llanrug gais i asiant y loteri genedlaethol 'Arian i Bawb' i greu prosiect arbennig i ddehongli hanes arbennig Bro yr *Eco* dros y ganrif ddiwethaf.

Prif amcan y prosiect oedd dod â phlant ac oedolion hynaf yr ardal at ei gilydd i ddehongli rhai o ddigwyddiadau mwyaf allweddol ein bro ar gof a chadw.

Rydym yn awyddus i recordio lleisiau a ffilmio cyfweliadau gyda chymeriadau lleol. Mae Rygarug ac Ysgol Gynradd Llanrug wedi sefydlu gwefan arbrofol. Pwrpas y wefan yw arddangos lluniau, ffilmiau, dyddiaduron a chofnodion am ddigwyddiadau hanesyddol y fro, a'i rhannu gyda gweddill y byd.

Wrth drafod y cais roeddem yn ymwybodol y byddem yn gorfod cael cefnogaeth yr amgueddfeydd lleol, ac hefyd pobl ardal yr *Eco* sydd yn ymddiddori ac arbenigo mewn hanes lleol.

Dyma gyfeiriad y safle: http://web.mac.com/rygarug gwefan gartref project cymunedol hanesyddol ardal yr *Eco*.

Drwy ddefnyddio adnoddau amlgyfrwng megis, camerâu digidol, camerâu fideo, sganiwr, ac offer recordio modern, rydym yn gobeithio trosglwyddo rhai o ddigwyddiadau mwyaf trawiadol yr ardal i ffurf digidol parhaol ar gof a chadw.

e.e., Hanes Marconi yn Waenfawr.

Mae disgyblion yr ysgol gynradd wedi darganfod hen ffilmiau Pathe News sydd yn adrodd hanes Marconi yn yr ardal.

Mae ffilm hefyd yn dangos ffrwydron yn cael ei defnyddio i chwythu'r mastiau enfawr.

Byddai recordio pobl leol yn trafod canolfan Marconi yn creu archif ddiddorol iawn ar y wefan i'r dyfodol.

Gallwn hefyd sganio lluniau a dogfennau yn effeithiol. Ein bwriad yn creu archif hanes leol fydd yn debyg iawn i safle http://www.rhiw.com – safle wych ym Mhen Llŷn.

Rydym yn gofyn i unigolion sydd â gwybodaeth a chefndir eang o'r ardal ymuno gyda ni i 'Hel Straeon' ac i gynnig syniadau i'r pwyllgor.

e.e., adnabod unigolion a phensiynwyr lleol fyddai yn cynnig straeon neu gyfraniad.

Ein gobaith yw y bydd y bobl ifanc o fewn y Clwb yn gwneud y gwaith ffilmio, golygu a chysodi ar y wefan.

**Ffilmiau Hanesyddol**

Mae rhywfaint o'r arian fodd bynnag wedi cael ei glustnodi ar gyfer creu pedair ffilm fer broffesiynol, fydd yn cael ei danfon i archif ffilm y B.B.C. ac i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

Mae'r B.B.C. yn gwneud llawer o ddarlleniadau cymunedol sydd yn olrhain bywyd ardaloedd diwydiannol ac amaethyddol mewn fformal digidol. 'Digital Stories' http://www.bbc.co.uk/cymru/cipolwgargymru/

Profiadau a dehongliad personol fel arfer yw'r ffurf mwyaf effeithiol o gofnodi hanes.

http://www.bbc.co.uk/wales/capturewales/tg/memory.shtml

**Gwahoddiad i 'Hel Straeon'**

I ddechrau'r gwaith mae'n bwysig adnabod storïau da! Rydym yn gorfod dibynnu ar arbenigedd pobl eraill i roddi cyfeiriad a fframwaith i'r cynllun.

Dyna pam rydym yn gofyn i unigolion lleol bro'r *Eco* am gymorth.

Fe hoffwn eich gwahodd i gyfarfod cynllunio'r grŵp. Cyfarfod anffurfiol lle bydd pawb yn cyfrannu syniadau i ddechrau.

**Sgwrs a phaned ar brynhawn Sul**

Lleoliad: Bloc Newydd Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Gynradd Llanrug.

Amser: 5.30–7.00 p.m. – prynhawn Sul.

Bydd y cyntaf o gyfres o 3 cyfarfod cynllunio brynhawn dydd Sul, Mawrth 25, 2007.

Llawer o ddiolch.

ROBIN WILLIAMS.
Pennaeth


Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
www.ybistro.co.uk
Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

# Dyddiadur Can Mlynedd

Fe gawn ddechrau y mis hwn yn y flwyddyn 1901, ac wedyn fe symudwn i'r flwyddyn 1914, sef dechrau'r Rhyfel Mawr.

**1901**

*5 Ionawr:* Marw John Griffiths, Plas Tirion.
*7 Ionawr:* Marw Bethan Williams, Ceunant Street.
*24 Ionawr:* Marw gwraig Owen Williams, Lôn Glai.
*3 Chwefror:* Marw Tom Rodgers, Butcher.
*18 Chwefror:* Marw David Michael Jones, Ceunant Street.
*9 Mawrth:* Marw John Lewis, Pentre Castell.
*12 Mawrth:* Marw gwraig Griffith Parry, Gorffwysfa.
*27 Mawrth:* Priodi David Price, Llanberis.
*7 Mehefin:* Priodi Owain Thomas Jones. ac hefyd priodi John Griffith Williams, Esgeiriau.
*22 Mehefin:* Claddu Hugh Owen, Hafod Uchaf.
*18 Medi:* Marw William Roberts, Pentre Castell.
*27 Medi:* Priodi Dick Aber, Cwm y glo.
*16 Hydref:* Priodi David Humphries, Blaen y Ddôl, ac hefyd yr un prynhawn claddu William Edwards, Assurin.
*17 Hydref:* Claddu gwraig William Jones, Ty'n Gadlas.
*18 Hydref:* Marw gwraig Thomas Jones, Pen y Bwlch.
*19 Hydref:* Priodi William Parry, Snowdon Street, Llanberis.
*20 Hydref:* Marw merch Evan Rowlands, Adwy'r Waen.
*30 Hydref:* Priodi William H. Evans, Shop Newydd.
*23 Tachwedd:* Marw William Davies, Raily, gynt.
*28 Tachwedd:* Claddu Ellen Bronfedw a fu farw yn Sir Fôn.
*3 Rhagfyr:* Claddu William Owen, Tai Cwmbrwyniog, a gafodd ei ladd yn Lerpwl.
*6 Rhagfyr:* Marw Isaac Parry, Bethel.
*14 Rhagfyr:* Marw John Rodderick Williams, Blaen y Ddôl, ac hefyd Caradog Evans, Rallt Goch.

Ac yn awr mi awn i'r flwyddyn y dechreuodd y Rhyfel Maawr, sef 1914:

*2 Ionawr:* Priodi Owen Williams yng Nghaernarfon.
*3 Ionawr:* Claddu merch Foel Gron, Dinorwig.
*16 Ionawr:* Claddu gwraig Edward Jones, Compton House.
*8 Chwefror:* Marw gwraig Evan Roberts, Vaynol Cottages.
*10 Mawrth:* William John yn ymadael o'r Fron Olau i Cwmglas Uchaf.
*14 Mawrth:* Cael golau trydan yn Llwyn Celyn.
*11 Mai:* Marw Robert Griffith, Newton Street, yn sydyn ar fin caniad yn Bonc Wyllt.
*14 Mai:* Marw hen wraig Yfotty Newydd, Llanberis.
*1 Mehefin:* Claddu gwraig Thomas Jones, Snowdon Street.
*3 Mehefin:* Claddu plentyn i William Roberts, Cwmglas Uchaf.
*13 Mehefin:* Ashton Smith yn rhoddi gwahoddiad i weithwyr Chwarel Dinorwig i Barc y Faenol.
*12 Gorffennaf:* Fe aeth trip capeli Llanberis i Landudno. Diwrnod braf ond fe ddaeth yn dywydd mawr gyda'r nos.
*2 Awst:* Dechreuwyd ar gwpanau unigol yn Capel Coch.
*4 Awst:* Dechrau Rhyfel Germany.
*15 Awst:* Claddu Ellis Jones, Ceunant Street.
*29 Awst:* Claddu gwraig Thomas Griffith, Bryngwyn, Llanrug.
*22 Medi:* Ail dro i Cadi Williams, Hafod Bach, fynd i'r America.
*24 Medi:* Claddu William Jones, Gellihirbant, ac hefyd newyddion yn dod am farw Syr Charles Ashton Smith.
*26 Medi:* Priodi Thomas Ellis Hughes.
*12 Hydref:* Marw William Hughes, Cae Esgob, a cael ei gladdu ar ddydd Sadwrn.
*17 Hydref:* Marw Evan Jones.
*20 Hydref:* Daeth newyddion fod Syr Robin Duff Ashton Smith wedi cael ei ladd yn y rhyfel ar ddydd Diolchgarwch.
*28 Hydref:* Priodi William Griffith, Llainwen Uchaf.
*30 Hydref:* Tom Ellis Pritchard, Raily Uchaf, yn priodi.
*12 Tachwedd:* Agor siop newydd Star yn Llanberis.
*17 Rhagfyr:* Claddu gwraig Tyddyn Eilian, Llanberis, a Mr Lloyd, Capel Coch, yn dod o Northampton i'w chladdu.
*24 Rhagfyr:* Claddu John Williams, Tan Rhiw, Pentre Castell. ac hefyd cafodd Owen D. Owen, Raily Uchaf, ei ladd yng ngwaith glo Aston a dod â'r corff i'w gladdu i Lanrug.
*26 Rhagfyr:* Marw gwraig Owen Roberts, Tŷ Uchaf Ffordd.
*27 Rhagfyr:* Pregethodd Mr Hawkings, Caernarfon, mewn dillad caci yn Capel Coch.

R. Elwyn Griffiths

# Y LLYFR ENWAU

- Beth yw Plwmp?
- Ble ddaeth Sblot?
- Beth yw ystyr Ystalyfera?
- Beth yw gwreiddyn Gwauncaegurwen?

Ydych chi erioed wedi pendroni am enwau lleoedd yng Nghymru? Yn crafu pen wrth geisio esbonio ystyr enw lle yn eich ardal chi? Os ydych chi, yna bydd llyfr newydd dwyieithog, *Y Llyfr Enwau / A Check-list of Welsh Place-names* yn ddelfrydol i chi.

Aeth yr awdur a'r geiriadurwr toreithiog, D. Geraint Lewis, ati yn ddyfal i gasglu miloedd o enwau lleoedd o Fôn i Fynwy a chynnig esboniad i'w tarddiad. Yn y llyfr newydd hwn ceir ymgais i dynnu ynghyd, mewn un man, y gwaith a gyflawnwyd dros y blynyddoedd gan ysgolheigion, haneswyr, geiriadurwyr a rhai sy'n ymddiddori mewn enwau lleoedd.

Esbonia Geraint Lewis ychydig am gefndir y prosiect: 'Wrth lunio *Geiriadur Gomer i'r Ifanc*, yr oeddwn, fel dysgwr fy hun, yn dymuno cynnig cymorth yn y meysydd hynny yr oeddwn i wedi cael trafferth gyda nhw pan oeddwn i'n dysgu'r iaith. Yn y diwedd yr oedd hyn yn golygu canolbwyntio ar deithi arbennig y Gymraeg, a arweiniodd yn naturiol wedyn at *Y Llyfr Berfau, Y Llyfr Ansoddeiriau, Pa Arddodiad, Y Treigladur* a'r *Geiriau Lletchwith*. Yr un llyfr o'r math yma oedd yn weddill oedd *Y Llyfr Enwau*.'

A fan hyn rhaid imi ddychwelyd at fy ngwreiddiau yn Ynys-y-bŵl.'

Rwy'n cofio'r syndod a'r rhyfeddod a gefais pan dderbyniais lythyr gan Athro Cymraeg Coleg Aberystwyth gydag enw'r pentref wedi'i sillafu yn y fath ffordd. Nid oeddwn i (nac unrhyw un arall yn y pentre, am wn i) wedi'i weld wedi'i sillafu fel hyn o'r blaen! Rwy'n hoffi meddwl fy mod wedi llwyddo i egluro ystyr Ynys-y-bŵl yn y llyfr hwn...'

Ychwanega Geraint, 'Fel gyda'r cyfrolau cyfatebol eraill, y cyfan yr wyf i wedi'i wneud yw casglu ynghyd y gwaith gwreiddiol a wnaethpwyd gan eraill, a'i grynhoi rhwng dau glawr. Rwy'n gobeithio y bydd y mapiau, y mynegai a threfn y cofnodion yn ei gwneud yn gyfrol hylaw ei defnyddio, a bod gwaith trylwyr caled eraill, yn sicrhau ei bod yn gyfrol y gellid troi ati yn hyderus yn ei chynnwys.'

Cyhoeddir *Y Llyfr Enwau* gan wasg Gomer, ar yr un pryd ag y mae prosiect 'Beth sy' mewn enw? / What's in a Name?' gan y BBC yn sbarduno trafodaeth am enwau lleoedd. Dros y misoedd nesaf mae'r BBC yn mynd ati i drafod tarddiad a chwedloniaeth enwau lleoedd Cymru ar deledu, radio ac ar-lein. Bydd cyfres deledu Saesneg yn cael ei darlledu ym mis Mai gyda Nia Roberts o *Raglen Hywel a Nia* yn ymuno â Trevor Fishlock i drafod y pwnc difyr hwn.

*Y Llyfr Enwau:*

*Enwau'r Wlad / A Check-list of Welsh Place-names*

D. Geraint Lewis, Gwasg Gomer, £17.99

# Yr Wyddfa ar Daith

Cyhoeddwyd erthygl yn yr *Eco* yn ddiweddar am y posibilrwydd na fydd eira i'w weld ar gopa'r Wyddfa ymhen ychydig flynyddoedd, a chytuna amryw o ysgolheigion â'r broffwydoliaeth. Dywed amryw na chawn eira o unrhyw fath ar y copa ymhen pymtheg mlynedd.

Er mwyn addysgu pobl Prydain am y newidiadau yn yr hinsawdd, fe defnyddiwyd yr Wyddfa, gan ysgolheigion Llundain, fel engraifft o sut y bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnom yng Nghymru a Lloegr.

Ceir darlun a'r Wyddfa a enwir 'Snowline in Retreat' gan yr arlunydd, Joe Cornish, fel rhan o waith ffotograffiaeth ar daith gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a elwir yn 'Exposed! Climate change in Britain's backyard' yn Oriel Hooper yn Llundain.

Dywed bod tymheredd copa'r Wyddfa yn y gwanwyn wedi cynyddu dros 2.5 selsiws yn y 30 mlynedd diwethaf, a dywed ysgolheigion Prifysgol Cymru, Bangor, y ceir 30% yn llai o eira ar gopa'r Wyddfa nawr o'i gymharu â 1997.

Gellir ymweld â'r arddangosfa yng Nghastell Penrhyn, Bangor, rhwng 7 Gorffennaf a 2 Medi, o ddydd Llun hyd at ddydd Sul, rhwng 11.00 y bore a 5.00 y pnawn.

Cofiwch anfon eich llythyrau i'r golygyddion drwy e-bostio: storïau@ecorwyddfa.co.uk

# Cyfle i Ennill Tocynnau i Gyngerdd Eisteddfod Ryngwladol Llangollen

Beth sydd well ar ddechrau mis Gorffennaf na gweld heulwen tesog braf i ddenu rhywun allan am dro i weld rhyfeddodau? Wel, dyna'n union sydd i'w weld yn Llangollen, a hynny yn yr Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol ddechrau Gorffennaf, o'r 10–15.

Cewch ddiwrnod gwerth chweil yng nghanol lliw a bwrlwm gŵyl lwyddiannus sy'n croesawu pobl o bob cwr o'r byd i ddathlu dawns, diwylliant a heddwch, a hynny drwy gerddoriaeth.

Mae'r cystadlaethau ar lwyfan y Pafiliwn yn apelio at rai, yn arbennig felly Cystadleuaeth Corau'r Byd, nos Sadwrn, 14 Gorffennaf, a chystadlaethau gwerin, dydd Gwener, 13 Gorffennaf.

Os nad ydych yn un i fwynhau'r cystadlaethau yn y pafiliwn, mae'r maes y tu allan yn llawn bwrlwm a lliw, stondinau, crefftau, bwyd a diod gyda chantorion a dawnswyr yn perfformio ar dri llwyfan awyr agored.

Eleni, ar Ddiwrnod Celtaidd Rhyngwladol, sef dydd Gwener, 13 Gorffennaf, bydd llwyfan awyr agored S4C yn cynnig gwledd wrth i artistiaid o Gymru arddangos eu doniau i'r byd. Yn eu plith bydd Fflur Dafydd, Siân James a'r band a'r grŵp gwerin, Mabon, yn perfformio! Gyda dawn gyfansoddi ffres Fflur Dafydd, y gantores werin amryddawn Siân James a hwyl a sbri'r twmpath dawns Cymreig gyda Mabon – bydd rhywbeth at ddant pawb ar lwyfan S4C.

Ar ben hynny, ar y llwyfannau awyr agored eraill yn ystod dydd Gwener, bydd y bytholwyrdd Healther Jones yn perfformio, ynghyd â'r ddeuawd acwstig anhygoel o Lanrug, Brigyn. Cyfle heb ei ail i fwynhau cerddoriaeth Cymru, gan ddefnyddio'r Eisteddfod Rhyngwladol fel ffenest siop.

Pinacl yr Eisteddfod i ambell un, fodd bynnag, yw'r cyngherddau godidog sy'n cael eu trefnu. Bydd y temnor byd enwog, José Carreras, yn perfformio nos Sul, 15 Gorffenaf, gyda Hayley Westenra o Seland Newydd yn perfformio nos Wener, 13 Gorffennaf. Efallai mai Joan Baez, y gantores werin Americanaidd, sy'n apelio atoch ar nos Fawrth, 10 Gorffennaf; neu Gyngerdd Gwerin gyda Tia McGraff, cantores roc gwerin Americanaidd o Nashville, Tennessee, ar y nos Iau, 12 Gorffennaf, gyda'r grŵp gwerin o dde Cymru, Mabon.

**Ennill Trip**

Am gyfle heb ei ail i ennill tocynnau i weld cyngerdd Tia McGraff a Mabon, nos Iau, 12 Gorffennaf, atebwch y cwestiwn canlynol:

*Ar lwyfan awyr agored pwy y bydd rai o artistiaid Cymru i'w gweld yn yr Eisteddfod?*

Anfonwch eich ateb gyda'ch manylion, cyn 15 Mehefin, at Gystadleuaeth Papurau Bro, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, Y Pafiliwn, Ffordd yr Abaty, Llangollen, Sir Ddinbych LL20 8SW.

**Enw:**

**Cyfeiriad:**

**Cod Post:** **Papur Bro:**

**Rhif Ffôn:** **Oed:**


Os nad ydych am dderbyn gwybodaeth farchnata gan yr Eisteddfod, ticiwch y blwch yma. ☐

**Cwestiwn:**

Ar lwyfan awyr agored pwy y bydd rhai o artistiaid Cymru i'w gweld yn yr Eisteddfod

**Ateb:**

# Llyfrau Newydd o Wasg Gwynedd ar gyfer y gwanwyn





**O'r Tir i'r Tŵr**
Charles Arch
£6.95

Cawn yma ail hanner hunangofiant Charles Arch, dilyniant i'w gyfrol gyntaf boblogaidd, Byw dan y Bwa. Y tro hwn, dilynwn ei hynt a'i helynt o'r cyfnod y gwnaeth y penderfyniad digon anodd i adael ffermio ym mro uniaith Gymraeg Ystrad Fflur, i gydio yn swydd Trefnydd Ffermwyr Ifanc Maldwyn a setlo gyda'i deulu yn y Drenewydd.

Yn y swydd honno, ac mewn swyddi dylanwadol eraill y bu ynddynt, profodd bod ganddo ddawn arbennig iawn i drin pobol ac i ysbrydoli eraill. Cawn ddarllen amdano ef a'i deulu'n cartrefu'n hapus yn Nhregaron ac yn ardal Machynlleth, a dod i wybod sut y daeth i fod yn brif sylwebydd Sioe Llanelwedd (y llais o'r 'Tŵr') – heb sôn am gael hanes ei ddyfais athrylithgar, y ddafad blastig!

Mae yn y llyfr hefyd adran yn cynnwys casgliad difyr iawn o luniau.




**Merched Gwyllt o Gymru / Wild Welsh Women**
gan Beryl H. Griffiths
£7.95

**Glywsoch chi sôn erioed am Farged ferch Ifan (o ardal yr *Eco*), pladres o ddynes oedd yn rhwyfo pobl ar draws Llyn Padarn ac yn reslo yn erbyn dynion pan oedd yn ei 70au?**

Faint wyddoch chi mewn gwirionedd am Buddug, Siwan, Nest a Gwenllian? A beth yn union oedd hanes Betsi Cadwaladr, y ddynes o'r Bala roddodd Florence Nightingale yn ei lle? Pam fod Gwerfyl Mechain wedi penderfynu sgwennu cerddi 'masweddus', a beth ddigwyddodd i Mary Lewis, y lleidr o Langelynnin?

Dyma gyfrol sy'n crynhoi hanesion merched o Gymru a lwyddodd i dorri'r mowld, i dorri'r rheolau; merched sydd wedi bod yn arwresau ac yn seintiau yn ogystal â merched drwg. Mae ynddi hefyd ambell gymeriad chwedlonol, yn bennaf am eu bod nhw'n straeon mor dda. Yn y bôn, roedden nhw i gyd yn ferched â bywydau hynod ddifyr!

# Swyddogion Parcio ar eu Ffordd i Wynedd

Mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu cymryd camau statudol i reoli parcio ar y stryd. Bod yn y lle iawn ar yr amser iawn – dyna'r oll yr ydym ni yrwyr yn poeni ynglŷn ag o wrth fynd ati i barcio ein cerbydau fel arfer. Ond yn anffodus, nid dyna yw'r sefyllfa bob amser gan fod parcio anghyfreithlon ar y strydoedd ac mewn mannau gwaharddedig yn medru cyfaddawdu ar ddiogelwch y ffordd, ac yn effeithio ar lif traffig a mwynderau pobl leol.

Dyna pam fod Cyngor Gwynedd wedi penderfynu cymryd camau statudol i reoli parcio ar y stryd. Ar hyn o bryd, dim ond yr Heddlu a'r un Warden Traffig sy'n gweithredu yn y sir sydd â'r grym perthnasol i ddirwyo pobl sydd wedi parcio eu cerbydau mewn mannau gwaharddedig.

'Er mwyn gweithredu'n llwyddiannus rydym wedi penderfynu penodi Rheolwr Parcio, fydd yn gyfrifol am barcio ar y stryd ac ym meysydd parcio'r Cyngor,' meddai Iwan Evans, Pennaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth Cyngor Gwynedd.

'Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan benodiad Swyddogion Parcio i weithio gyda'r Rheolwr,' ychwanegodd.

Rhagwelir y bydd sefydlu'r Uned Barcio a'r gwaith cysylltiedig yn cymryd 18 mis cyn y daw i rym. Unwaith y bydd y drefn newydd yn ei lle, fe fydd y Cyngor yn cyhoeddi pryd yn union y bydd y mesurau newydd yn weithredol. Gobeithir y bydd y refeniw o barcio heb awdurdod yn talu am y Gwasanaeth.

Dywedodd y Cynghorydd Tomos Evans, sy'n arwain ar Amgylchedd ar Gyngor Gwynedd:

'Gan mai dim ond un warden traffig sy'n gweithio yn y sir mae'n bwysig fod adnoddau ychwanegol ar gael yn yr ardal. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i'r Cyngor weithio gyda chymunedau lleol i gyflwyno cynllun parcio trigolion lleol yn unig a sicrhau eu bod yn cael eu gorfodi.'

# CORONA, FFENDAR A CHWIP DIN

'Da chi'n gwybod be – fydda i weithiau'n meddwl bod Dr. Who wedi bod acw a mynd â fi yn ei Dardis. Dwi ddim yn cwyno oherwydd dwi'n cael profiadau newydd, difyr.

Geiriau mawr rhai pobl heddiw ydi, 'Ew mae pethau wedi newid!' Wrth gwrs y maent – newid yw bywyd. Mae 'na newid pob dydd ym mhrofiad pawb ohonom. Mae rhai yn mynd mor bell â dweud fod y byd wedi mynd o'i go, yn hurt, a bod y Seilam yng ngofal y gwallgofion.

Dwi ddim yn cytuno â nhw. Mae llawer o bethau yn annealladwy i mi. 'Sgen i ddim syniad sut i weithio'r internet. Dwn i ddim beth yw e-bay, e-bost, i-pod, blog, google, ac yn y blaen, ond mae yna filoedd sydd yn gwybod, ac yn eu gwerthfawrogi. Iawn te!

Y peth sy'n mynd o dan fy nghroen i ydi'r defnydd o 'lyfli', 'lyfio', cŵl', 'hiwj', 'wicked', 'bril', 'ffab', 'amazing', ac ymlaen ac ymlaen. Ffasiwn dros dro yw peth fel yna, gobeithio, ac yn fuan fe'i gwelwn yn diflannu.

Mae'n wirioneddol bosib fod pobl fel fi yn laru llawer ohonoch wrth fynd ymlaen ac ymlaen am 'stalwm byth a beunydd, ond mae atgofion yn bwysig oherwydd pan fyddwn i, y nifer prin sydd ar ôl, yn marw, fe fyddwn yn mynd â'n atgofion efo ni. Dydyn nhw ddim yn stori fawr, fyd-ysgytwol, ond maent yn rhan o stori Llanbêr. Rhan o'r tapestri.

Roeddwn mor falch pan anfonodd Emrys Owen, Birmingham, yr erthygl am y caeau pêl-droed roeddynt yn cael chwarae arnyn nhw. Doeddwn i ddim yn cofio rhai ohonynt. Diolch 'r Hen Em. Wedi'r cyfan, yma dros dro yr ydym i warchod er mwyn y criw sy'n dod ar ein holau. Gwir y dywedodd Elfed:

*'Yma mae beddrodau'n tadau*
*Yma mae ein plant yn byw.'*

Bûm yn Ysbyty Bryn Seiont yr wythnos diwetha a chefais fy atgoffa o'r amser yn y tridegau pan fyddai criw bach ohonom yn mynd yno ar ôl yr Ysgol Sul i ganu i'r cleifion. Ysbyty i bobl oedd yn dioddef o'r diciâu oedd hi bryd hynny. Dwi'n cofio Mam yn gofyn i'r ddwy ohonom: 'Sut aeth hi, genod?' a finnau'n ateb,

'Roeddan nhw'n licio ni'n canu a wyddoch chi be, Mam? Roeddan nhw i gyd yn glws, efo bochau pinc.'

Roedd fy chwiorydd a fi yn perthyn i sawl parti canu ac adrodd ond roedd chwarae yn bwysig iawn hefyd. Roedd plant yn cael chwarae allan yn y stryd bryd hynny, a dim diwedd ar y chwaraeon yn troi yn greadigaethau.

Ond roedd lleoedd arbennig – 'dens' – gennym hefyd. Roedd un sbesial iawn yn Cae Bach Arthur ac un arall yng nghae Morris Owen Coed Mawr. I'r fan honno roeddem yn mynd ar bnawn Sadwrn i actio yr hyn yr oeddem wedi gweld Jyngle Jim a Flash Gordyn yn ei wneud yn y pictiwrs y bore hwnnw.

Wythnos diwetha bûm yn gwylio rhaglen ar y teledu – gwyddonwyr yn trafod arferion adar. Pe baent wedi dod atom ni i Goed Arthur fe fuasent wedi dysgu llawer. Roeddem ni'n nabod adar ac yn gwybod eu henwau, a phan fyddai haid drwchus yn mynd heibio gwyddem mai mynd i briodas neu gynhebrwng yn rhywle yr oeddent.

Un o'r pethau nad oeddem byth yn blino ag o oedd gweld pwy allai wneud y bedd delaf allan o gerrig, mwsog a blodau gwyllt. Roedd digon o rheini o gwmpas.

Os oedd hi'n oer fe fyddem yn gosod cerrig yn gylch a llenwi'r canol efo priciau, a chan y byddai rhywun wedi dwyn matsus o gartre fe fyddem yn eistedd o'i gwmpas fel Indiaid Cochion yn cael 'pow-wow'. Unwaith roeddem wedi dod â thatws a photel o gorona. Roedd ganddom hen sosban, torri'r tatws yn 'chips' a llenwi'r sosban efo'r corona ac yna rhoi'r 'chips' ynddo. Fe eisteddom yno am hydoedd yn gwylio ond aeth y 'chips' ddim yn frown.

Fel tipyn o *retail therapy* fe fyddem yn mynd i doman landing weithiau i chwilio am rywbeth i wella'n tai ond un diwrnod fe es yn rhy bell. Gwelais ffendar ddel yno a phenderfynais fynd â hi efo fi. Llusgais hi heibio'r Grosvenor, croesi'r ffordd i Bont Huws Drygist, heibio Plas Tirion i fyny i Ben Graig ac ar hyd Pan Du ac i fyny Llainwen a chyrraedd Cae Morris Owen yn Coed Mawr. Roedd yn cymryd ei lle yn ardderchog a fy nhŷ wedi cael ei weddnewid.

Ddaeth y stori ddim i ben yn fan'na, gwaetha'r modd. Roedd gwraig rhywun oedd yn gweithio efo Nhad yn y chwarel wedi gweld y perfformans a phan ddaeth fy nhad adre (cyn iddo fwyta ei swper chwarel) cefais chwip din go iawn.

Oedd, mi oedd gennym wialen fedw – un hardd wedi ei chlymu â rhuban satin coch. Roedd ganddi le parchus uwch ben y lle tân. Rhieni clên, caredig dros ben gawsom ni. Rhai oedd yn gefn i ni – yn gadael i ni brifio a datblygu yn ein ffordd ein hunain. OND roedd yna linell na chaem ei chroesi a dyna pam y cefais i chwip din.

Pan oeddwn yn gorffen sgwennu hwn daeth un o fy wyrion i mewn,

'Be 'da chi'n neud, Nain?'

'Sgwennu rhyw bwt bach i anfon i *Eco'r Wyddfa*.'

'Ga i weld o?'

'Cei siŵr.'

Wedi tipyn o ddistawrwydd tra roedd yn darllen,

'Ple mae'r doman landing yma, Nain? Da chi'n meddwl fod yna fwy o gitârs fendar ar ôl yno?'

Ngwas i! Doedd ganddo ddim syniad sut beth oedd fy ffendar i. Welodd o erioed un.

MAIR ROBERTS, LLANWNDA


**GwalltGo**

Stryd Goodman, Llanberis
(Tu ôl i'r Bistro)


Siop trin gwallt
Merched, Dynion
a Phlant

Cysylltwch â Dilys neu Ffion
**01286 872414**

**Oriau agor:**
Mawrth – Iau: 9am – 5.30pm
Gwener: 9am – 7.30pm
Sadwrn: 9am – 4pm

**H. E. HUGHES A'I FEIBION**

**Bwthyn Gadlys**
**LLANBERIS**
**FFôn: 870444**



• Gwerthwyr Glo ac
• Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

***Gorsaf Betrol Beran Deiniolen.***



Golchi a ll'nau Ceir

***Ar agor 7yb - 9yh bob diwrnod***
***Petrol, Diesel, Nwy Calor a Glo***
***Loteri, Papurau Newydd***
***Off Licence, Bake'n Bite***
***Brechdanau a Diodydd Poeth***

Costcutter

01286 871521

# CHWARAEON

## Yr Ymgeleddwr

Yn Llanberis y clywais y term gwych 'Doctor Dŵr' am yr ymgeleddwr gyntaf – dyn y 'sbwnj'. Dros y blynyddoedd bu'r Darans yn ffodus yn y cyfeiriad yma. Erbyn heddiw, rydym mewn oes wahanol iawn. Buasai llawer o'r hen chwaraewyr yn dadlau fod y gêm bêl-droed tipyn 'meddalach' erbyn heddiw, a bod taclo'n diflannu. Nid yw hyn yn wir ym myd y bêl hirgron. Ar lefel 'lleol' erbyn hyn mae lefelau ffitrwydd wedi cynyddu yn sylweddol. Mae safon hyfforddi wedi gwella ac mae'r system gynghreiriol gydag esgyn a disgyn wedi cynyddu'r ddisgyblaeth a'r disgwyliadau.

Ar y lefel uchaf mae'r gêm llawer cyflymach, cystadleuol a chorfforol, gyda'r 'hit' yn cael ei amlygu yn aml. I'r byd yma y mentrodd Catrin Evison o Gaeathro yn ddiweddar. Tra'n ddisgybl yn Ysgol Syr Hugh Owen, fe gynrychiolodd Catrin ei gwlad yn y byd rygbi, fel asgellwr.

Wedi gadael yr ysgol, bu'n dilyn cwrs B.Sc. mewn ffisiotherapi ym Mhrifysgol Salford. Roedd hwn yn gwrs tair blynedd, gyda nifer o agweddau ymarferol. Rhan o'r agwedd yma oedd lleoliad gyda chlwb rygbi proffesiynol y Sale Sharks, sy'n chwarae eu gemau cartref ar faes pêl-droed Edgely Park, Stockport. Dyma un o brif dimau Lloegr. Y mae nifer o ferched yn ymwneud â'r agwedd yma yn y prif glybiau erbyn hyn.

Efallai i chwi weld Catrin ar yr ystlys, gan fod Sale wedi ymddangos ar y teledu yn aml yn ddiweddar. Roedd hefyd yn ymweld â'r sesiynau ymarfer. Tipyn yn frawychus mae'n siŵr oedd wynebu cewri fel Chaval, wythwr Ffrainc. Er hynny, teimlai yn gartrefol yno gan fod nifer o Gymry ar lyfrau Sale, gan gynnwys Kinglsey Jones, yr is-hyfforddwr.

Yn ddiweddar clywsom am nifer o chwaraewyr rhyngwladol yn gorfod ymddeol oherwydd anafiadau i'r cefn neu'r gwddw. O gofio y pwysau ar y prif chwaraewyr erbyn hyn, a'r clybiau yn mynnu eu presenoldeb ar gyfer y gemau, bydd swyddi rhai fel Catrin yn allweddol. Dymunwn yn dda iddi yn y maes arbenigol hwn.

* * *

Rwy'n siŵr bod nifer ohonom yn anfon ein dymuniadau gorau i'r cawr addfwyn, Ray Gravell, yn dilyn ei lawdriniaeth yn ddiweddar.

## Amser y 'Fwyell'?

Mae tymor criced arall ar gychwyn, ac mae'n siom na fydd tîm lleol gennym i'w ddilyn, yn enwedig o feddwl am y llu sydd â diddordeb yn lleol. Daw Morgannwg i Fae Colwyn eto, gan obeithio am wellhad ar y tymor trychinebus y llynedd. Gobeithio y bydd dychweliad Simon Jones a datblygiad un neu ddau o'r ieuenctid yn gaffaeliad.

Yn gyffredinol, siomedig iawn fu Cwpan y Byd. Rwy'n dyfalu mai Awstralia fydd y pencampwyr – o bell y tîm gorau ym mhob agwedd o'r gêm. Yn sicr, roedd ymadawiad cyflym y cewri, Pacistan ac India, y gynnar yn israddio'r gystadleuaeth. Cafwyd ambell seren wib ond siomedig o ran cyffro fu'r gemau.

Roedd perfformiadau Lloegr yn drychinebus. Ni all unrhyw dîm rhyngwladol fod yn fand un dyn, ac yn y diwedd roedd gormod o bwysau ar Pieterson. Yr un oedd y sefyllfa ynglŷn â Fletcher a Maynard, yr hyfforddwyr. Di-fflach oedd tactegau Lloegr. Ni chafwyd 'dechreuad' mewn unrhyw fatiad, eto prin oedd y dystiolaeth o geisio ymateb i'r gwendid. Yn amlwg, mae'r ddibyniaeth yn Lloegr i chwaraewyr 'prawf' hefyd eu cynrychioli yn y gêm undydd wedi bod yn fethiant. Nid yw'r elfen ymosodol tra'n batio neu fowlio yn gynhenid i nifer o'r chwaraewyr. Efallai ei bod hi'n amser cael ambell gystadleuaeth undydd ble na fydd y chwaraewyr tramor yn cael cynrychioli'r siroedd ynddynt. Cyfle i feithrin yn sicr, ond efallai mai'r cwynion gan y trysoryddion nad oes sêr yn denu torfeydd fuasai'n ennill y dydd.

---

## Angen Brasso

Ni fydd fawr o dlysau pêl-droed yn dod i fro'r *Eco* eleni, o ran y timau hŷn, beth bynnag. Yr unig obaith fydd i Lanrug ddod â Chwpan Cookson i'r Eithin Duon os byddant yn curo Tref Dinbych ar Ffordd Farrar ar 3 Mai.

Amser chwysu yw hi draw yn Llanberis. Maent wedi gorffen eu gemau cynghrair ac os bydd Helygain yn ennil eu tair gêm mewn llaw, yna bydd y Darans yn disgyn yn ôl i Gynghrair Gwynedd.

Mae nifer o ieuenctid lleol yn chwarae i dimau dan 17 Waunfawr a'r Felinheli yng Nghynghrair Môn. Gyda gemau mewn llaw gallai'r ddau dim yma ymgiprys am y bencampwriaeth.

## Dyddiau Cynnar

Cafodd Meilyr Emrys o Fethel lwyddiant yn ddiweddar, wrth iddo ennill gradd MA mewn Hanes Cymru o Brifysgol Cymru Aberystwyth. Testun ei draethawd hir oedd hanes cymdeithasol pêl-droed yn Sir Gaernarfon cyn y Rhyfel Mawr. Mae yn parhau gyda'i waith ymchwil, yn trafod hanes cymdeithasol chwaraeon yng ngogledd-orllewin Cymru rhwng 1870 a 1939. Dros y misoedd nesaf cawn bytiau o waith cynhwysfawr Meilyr. Dyma ei gyfraniad cyntaf:

* * *

Mewn cyd-destun Cymreig, mae yna lawer o waith da eisoes wedi cael ei wneud ym maes hanes chwaraeon, gan rai fel Gareth Williams a Dai Smith yn yr 1980au. Y tueddiad yw fod yr astudiaethau yn croniclo tyfiant y bêl hirgron yn y de.

Mae hanes cymdeithasol chwaraeon yng ngogledd Cymru wedi cael ei anwybyddu, a thueddiad wedi datblygu mai rygbi yw'r unig gamp sydd wedi mynd â bryd trigolion Cymru ben baladr yn ystod y ganrif a chwarter ddiwethaf. Dim ond am ddelweddau o lowyr – a 'boyos' cymoedd y de – y mae nifer o dramorwyr yn meddwl pan ofynnir iddynt drafod nodweddion cymdeithasol y Cymry. I raddau mawr, felly, mae hanes gogledd Cymru yn gyffredinol fel petai wedi cael ei esgeuluso gan haneswyr ein gwlad.

Mae cynnwys ambell lyfr ac erthygl yn profi fod gan drigolion y gogledd – ac ardal bro'r *Eco* yn enwedig – eu hanes a'u hunaniaeth unigryw eu hunain. Roedd traddodiadau hamdden trigolion gogledd Cymru oes Fictoria ac oes Edward, yn wahanol iawn i draddodiadau eu cyfoedion yn y de.

Er bod rygbi wedi datblygu i fod yn gamp boblogaidd iawn yn ne Cymru yn ystod chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, camp y bêl gron oedd yn mynd â bryd y mwyafrif llethol o drigolion y gogledd-orllewin. Fe adlewyrchwyd hynny wrth i glwb Bangor – a gafodd ei sefydlu'n wreiddiol fel clwb oedd yn chwarae pêl-droed a rygbi – droi eu cefnau ar gamp y bêl hirgron ar ôl dim ond tymor. Enillwyd Cwpan bêl-droed Cymru ym 1889 a 1896 ac, wrth i brif glybiau pêl-droed Sir Gaernarfon dderbyn cefnogaeth frwd gan y chwarelwyr lleol. Cafodd nifer o sêr y clybiau hynny gyfle i fynd ymlaen i fwynhau llwyddiant mawr y tu hwnt i Glawdd Offa yn ystod oes Fictoria hefyd.

Un o arwyr mwyaf y chwarelwyr oedd Billy Lewis o Fangor, ac wedi iddo serennu yn lifrau clwb ei dref enedigol, fe aeth ymlaen i chwarae dros Everton a Manchester City. Mae Lewis yn parhau i fod ymysg prif sgorwyr tîm cenedlaethol Cymru.

Yn wir, mae'r ffaith fod camp y bêl gron wedi datblygu i fod yn boblogaidd ymysg chwarelwyr llechi oes Fictoria, ynddo'i hun yn ffenomen diddorol. Fel y mae R. Merfyn Jones yn ei nodi – yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd dysg y capeli'n dylanwadu'n gryf ar ymddygiad trigolion pentrefi chwarelyddol gogledd-orllewin Cymru. Gyda nifer o weinidogion Anghydffurfiol blaenllaw y cyfnod yn collfarnu 'ymarferiadau gwagsaw' fel y *football matches*, ac felly'n wrthwynebus iawn i'r 'bêl-droed' anfoesol, mae'n syndod, i raddau, fod y gamp wedi llwyddo i ennyn cymaint o boblogrwydd ymhlith trigolion Fictoraidd Sir Gaernarfon.

Ond, er gwaethaf gwrthwynebiad chwyrn y gweinidogion Anghydffurfiol, fe ffurfiwyd clwb yn Llanberis mor gynnar â 1884. Mae adroddiad papur newydd yn nodi fod yna glwb o'r enw'r 'Bethel Heroes' wedi bodoli yn ystod ail hanner yr 1880au. Serch hynny, wedi i'r *North Wales Observer and Express* nodi for yr 'Heroes' wedi colli o bum gôl i ddim yn erbyn 'Carnarvon Olympic' ar ddechrau mis Chwefror 1887, ni chlywyd unrhyw sôn amdanynt eto!

Er gwaethaf hyn, gyda dyfodiad y cyn gôl-geidwad rhyngwladol, R. H. Mills-Roberts, i weithio fel llawfeddyg yn Ysbyty Chwarel Dinorwig ar ddechrau'r 1890au, rhoddwyd hwb pellach i boblogrwydd pêl-droed ym mro'r *Eco* ac, erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd cymdeithas bêl-droed newydd Arfordir Gogledd Cymru wedi rhoi trefn a strwythur i'r gamp yn y gogledd-orllewin am y tro cyntaf.

Yn sgil hyn, erbyn 1902, roedd clwb o Gwm y Glo yn chwarae ochr yn ochr â'u cymdogion o Lanberis yng nghynghrair fechan y South Carnarvonshire League, ac wrth i'r 'Berries' (fel y gelwid pêl-droedwyr cynnar Llanbêr) gyrraedd rownd derfynol Cwpan Iau Arfordir Gogledd Cymru ym 1910, gwelwyd gwreiddio'r traddodiad o lwyddiant gan glybiau o fro'r *Eco* yn y Junir Cup.

Cyrhaeddodd Llanrug rownd derfynol y gystadleuaeth honno am y tro cyntaf ym 1923, a chan fod Llanberis wedi mwynhau llwyddiant pellach yn y Junior Cup yn ystod y 1930au a'r 1960au, a chlybiau Bethel a Deiniolen wedi ei hennill yn ystod y pymtheng mlynedd diwethaf, trist oedd gweld diwedd ar y traddodiad hwnnw y tymor yma.

* * *

Dyna flas felly o bwnc sydd, heb os, yn un diddorol iawn, ac yn un sydd angen ei astudio. Gobeithiwn yn fawr felly y cawn glywed mwy gan Meilyr yn y dyfodol agos.